



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR ARCHWILIO
AUDIT COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.30am DYDD IAU, 14 CHWEFROR 2013

10.30am THURSDAY, 14 FEBRUARY 2013

Lleoliad / Location

SIAMBR ARFON/CHAMBER,
SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,
PENRALLT,
CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GWYN PARRY WILLIAMS

01286 679665

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 06-02-13

**PWYLLGOR ARCHWILIO
AUDIT COMMITTEE**

AELODAETH/MEMBERSHIP (19)

Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr/Councillors

Edward Dogan
Chris Hughes
Dilwyn Morgan

Huw Edwards
Charles W Jones
Michael Sol Owen

Aled Ll. Evans
Dafydd Meurig
Gethin G. Williams

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Trevor Edwards

Tom Ellis

John Pughe Roberts

Angela Russell

Llais Gwynedd (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Anwen Davies

John Brynmor Hughes Aeron M. Jones

R.J. Wright

Llafur/Labour (1)

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

Aelod Lleyg/Lay Member

Mr John Pollard

Aelod Ex-officio/Ex-officio Member

Cadeirydd y Cyngor /Council Chairman

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

4. CYLLIDEB 2013/14 A STRATEGAETH ARIANNOL 2013/14 – 2016/17

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau
(copi yma – papur **aur**)

5. BIDIAU REFENIW A CHYFALAF

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella
(copi yma – papur **pinc**)

6. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2013/14

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **gwyn**)

7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar
Gynllun Archwilio Mewnol 2012/13 (copi yma – papur **melyn**)

8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2013/14

Cyflwyno Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2013
– 31 Mawrth 2014 (copi yma – papur **gwyrdd**)

9. COFRESTR O ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella
(copi yma – papur **lelog**)

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDDIAD: 14 CHWEFROR 2013

**TEITL: CYLLIDEB 2013/14 A STRATEGAETH
ARIANNOL 2013/14 - 2016/17**

**PWRPAS: CYFLWYNO'R GYLLIDEB A'R
STRATEGAETH I'W GRAFFU GAN Y
PWYLLGOR ARCHWILIO O RAN
PRIODOLDEB ARIANNOL Y
STRATEGAETH**

**GWEITHREDIAD: CRAFFU'R WYBODAETH CYN I'R
CABINET DDOD I GASGLIADAU
TERFYNOL AR BETH I'W ARGYMELL I'R
CYNGOR**

**SWYDDOGION CYSWLLT: DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR
CORFFORAETHOL A DAFYDD L
EDWARDS, PENNAETH CYLLID.**

AELOD CABINET: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

Yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror bydd disgwyl i'r Cabinet gynnig cyllideb i'r Cyngor sy'n cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylid ei argymell ar gyfer 2013/14.

Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach bwriedir hefyd gynnig strategaeth ariannol ar gyfer oes y Cyngor yma (2013/14 - 2016/17).

Mae hyn yn parhau gyda'r arferiad a fu gennym bellach ers rhai blynyddoedd - arferiad sy'n cael ei ganmol gan yr Archwiliwr Dosbarth ac yn talu ar ei ganfed o ystyried y sefyllfa yr ydym yn ei wynebu o'i gymharu â rhai cyngorau eraill.

Mae'r cabinet eisoes wedi rhoddi ystyriaeth i'r hyn y mae'n bwriadu ei argymell ac fe nodir y syniadau cychwynnol hynny yn yr adroddiad amgaeedig.

Cyn i'r Cabinet ddod i gasgliadau terfynol, rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y strategaeth er mwyn i'r Cabinet fedru ystyried unrhyw sylwadau sydd ganddo wrth lunio'r cynigion terfynol.

ADRODDIAD I'R CABINET
22 Ionawr 2013

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins

Pwnc: Cyllideb 2013/14 a Strategaeth Ariannol 2013/14 - 2016/17

Swyddog cyswllt: Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol

Y penderfyniad a geisir

Y dylid argymhell i'r Cyngor -

- 1 Y dylid mabwysiadu cyllideb refeniw o £233.913m yn 2013/14 i'w rannu fesul gwasanaeth fel y nodir yn Atodiad 1 a fydd hefyd yn golygu dibynnu ar arbedion o £1.891m yn 2013/14.
- 2 Y dylid cyllido'r swm yma drwy'r grant o £181.633m y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a £52.28m o'r Dreth Gyngor fyddai'n golygu cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor.
- 3 Y dylid hefyd cymeradwyo bidiau unwaith ac am byth o £394,250 i'w ariannu allan o'r £268,050 arian grant cymell perfformiad a gedwir bob blwyddyn at ddibenion unwaith ac am byth gan ychwanegu £126,200 pellach o'r adnodd Dreth Gyngor a osodwyd o'r neilltu ar gyfer 2015/16.
- 4 O ran y sefyllfa dros y 4 blynedd nesaf, y dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £32m a daflunnir ar gyfer y 4 blynedd i ddod drwy gynllunio i gynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfartaledd o 3.5% y flwyddyn fydd yn darparu bron i £8m ar ben yr £8.7m o arbedion yr ydym wedi cynllunio ar eu cyfer yn barod.
- 5 Y dylid anelu wedyn i ddarganfod y gweddill drwy osod targed effeithlonrwydd pellach o £6.4m a cheisio gwyrto galw am wasanaethau'r Cyngor drwy fod yn rhagweithiol i osgoi creu galw am y gwasanaethau hynny gyda golwg ar ddarganfod £5m pellach. Byddai unrhyw swm ar ôl i'w ddarganfod wedyn yn gorfod dod o doriadau.
- 6 Cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £20.839m ar gyfer 2013/14; £15.748m ar gyfer 2014/15 a £20.346 ar gyfer 2015/16 ar y cynlluniau a nodir yn Atodiad 3.

- 7 Cytuno i ddileu'r cynllun arbedion "Cefnogaeth i Aelodau" (£54,000) o'r cynlluniau arbedion yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Barn yr aelod lleol

Nid yw'n fater lleol.

Cyflwyniad

1. Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod (2013/14) gan ystyried beth yw ei ofynion gwario. Rhaid priodoli hynny wedyn gyda'r incwm sydd yn debygol o fod ar gael gan ystyried sut wedyn i gau'r bwlch, gan bwysu a mesur y dadleuon o blaid cynyddu'r Dreth Gyngor neu leihau gwariant.
2. Yn hanesyddol, ac yn unol ag ymarfer gorau, mae'r Cyngor wedi sefydlu ei gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.
3. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed i ni gan ein bod yn medru cynllunio unrhyw arbedion angenrheidiol yn rhesymegol heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog sydd yn aml yn arwain at y penderfyniadau anghywir o ran y buddion i'r dinesydd.
4. Mater i'r Cabinet yw ystyried yr holl faterion yma gan wneud argymhellion priodol i'r Cyngor. Mae yna rôl hefyd i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y cynigion y bwriedir eu cyflwyno er mwyn ystyried a ydynt yn ariannol briodol.
5. Mae'r atodiad sydd ynghlwm i'r adroddiad yma yn manylu ar yr holl faterion perthnasol sydd angen eu hystyried wrth sefydlu strategaeth ariannol tymor canolig ac wrth sefydlu cyllideb 2013/14 (gan gynnwys unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor).
6. Yn 2013/14 bydd y grant y byddwn yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cynyddu 1.1% i £181.63m ond mae'r asesiad o'n hanghenion gwario yn awgrymu ein bod angen cynyddu ein gwariant 2.1% i £235.81m.

7. Heb unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor, rhagwelir y byddwn yn casglu £50.51m y flwyddyn nesaf (sydd £784,000 yn llai nag eleni oherwydd effaith rhagweledig y gyfundrefn cymorth treth gyngor newydd) sy'n golygu fod gennym fwlch o £3.67m i'w ddarganfod yn 2013/14.
8. Mae'r strategaeth yn awgrymu y dylid cwrdd â'r bwlch yma drwy gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% er mwyn cynhyrchu £1.77m gan adael £1.9m i'w ddarganfod o arbedion.
9. Byddai hyn yn lleihau ein gwariant i £233.91m.
10. Bydd hyn yn cynnwys rhoddi cynnydd arian o 2.08% i ysgolion fydd yn golygu, yn wahanol i bob gwasanaeth arall yn y Cyngor na fyddant yn wynebu darganfod arbedion am yr ail flwyddyn yn olynol (heblaw i gwrdd ag effaith niferoedd disgyblion sydd yn gallu bod yn effaith bositif neu negyddol yn ol amgylchiadau'r ysgol.
11. Yn 2013/14 hefyd bydd ysgolion cynradd yn rhannu £200,000 fydd yn cael ei ail ddyrannu yn sgil y broses trefniadaeth ysgolion.
12. O fewn y gyllideb mae yna nifer o risgiau sylweddol (gan gynnwys lefel cynnydd cyflogau; cost y cynllun Cymorth Treth Gyngor newydd ac unrhyw effaith ariannol y gyfundrefn cofrestru awtomatig ar gyfer pensiynau a chyferchir y risgiau sylweddol yma drwy gadw cyllideb wrth gefn o £1.6m.
13. Ar gyfer y cyfnod 4 blynedd 2013/14 - 2016/17 dengys ein dadansoddiad o'r sefyllfa dros y cyfnod y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £32m dros y cyfnod.
14. Pe byddai'r Cyngor yn fodlon cynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y 4 blynedd nesaf byddai hyn yn creu £7.8m tuag at y diffyg ac mae gennym raglen arbedion sydd yn mynd i gynhyrchu £8.7m dros y ddwy flynedd nesaf (ar ol cymryd i ystyriaeth dau gynllun na fydd yn cynhyrchu cymaint ag y disgwyliwyd yn wreiddiol).
15. Golyga hynny felly y byddwn angen darganfod bron i £16m o arbedion yn y ddwy flynedd olaf.
16. Mae'r strategaeth a nodir yn awgrymu y dylid dygymod gyda gweddill y bwlch drwy edrych am fwy o arbedion effeithlonrwydd (gan osod targed o £6.4m ar gyfer hynny) a chynnal ymdrechion rhagweithiol i osgoi creu

galw am wasanaethau (gan dargedu £5m o'r gweithgaredd hwnnw). Byddai unrhyw swm pellach yn gorfod dod o doriadau.

17. Crynhoir yr holl holl sefyllfa yn y tabl isod -

£M	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	Cyfanswm
Gofynion Gwario ychwanegol	17.2	7.0	9.4	9.0	42.6
Colled (cynnydd) grant	(13.6)	(0.5)	2.7	1.4	(10.00)
Treth Gyngor	(1.7)	(1.8)	(2.3)	(2.0)	(7.8)
Diffyg Cynlluniedig	1.9	4.7	9.8	8.4	24.8
Cynlluniau £16m	(0.9)	(0.8)	(0.3)		(2.0)
Incwm	(0.1)				(0.1)
1% Effeithlonrwydd	(1.3)	(1.8)	(0.1)		(3.2)
Effeithlonrwydd corfforaethol	(1.4)	(2.0)			(3.4)
I'w ddarganfod drwy -	(1.8)	0.1	9.4	8.4	16.1
Effeithlonrwydd pellach			(6.4)		(6.4)
Lleihau galw			(5.0)		(5.0)
Toriadau (ffigwr balansio)			(4.7)		(4.7)

18. Mae'r strategaeth a nodir hefyd yn awgrymu rhaglen gyfalaf fel y nodir yn Atodiad 3 fydd yn buddsoddi £20.839m yn 2013/14; £15.748m yn 2014/15 a £20.346m 2015/16 sydd lawer uwch na'r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

19. Mae'r holl strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd wrth gadw cynnydd yn y Dreth Gyngor i'r lleiafswm fyddai'n gyson gyda'r amcan hwnnw.
20. Mae o hefyd yn ceisio taenu effaith blynyddol amrywiol y wasgfa ariannol yn gyson dros y blynyddoedd fel na fyddwn yn gweld y Dreth Gyngor yn gostwng mewn un flwyddyn dim ond i'w weld yn gorfod codi'n wyllt mewn blynyddoedd eraill.
21. Fodd bynnag drwy gymryd rhagolygon 4 blynedd i ystyriaeth fe welir hyd yn oed o fod yn fodlon cynyddu'r Dreth Gyngor 3.5%, taflunnir y byddwn yn wynebu bwlch ariannol o bron i £25m dros y 4 blynedd.
22. Mae yna strategaeth ar gyfer darganfod y bwlch hwnnw ond ymddengys y gallasai elfen o hwnnw orfod dod o dorri gwasanaethau i'r cyhoedd.

23. Fod bynnag mae'r strategaeth o ddarganfod talp helaeth o arbedion effeithlonrwydd pellach a chymryd camau rhagweithiol i osgoi creu galw a disgwyliadau yn golygu fod yna bosibilrwydd y gallwn gadw unrhyw doriadau i'r isafswm a thrwy hynny gwarchod pobl Gwynedd cymaint ag sy'n bosibl.
24. Yn sicr fe fydd yna gynghorau yng Nghymru yn cynyddu'r Dreth Gyngor llai na 3.5% ond yn yr un modd mae yna son yn y wasg yn ddiweddar am gynghorau sydd am gynyddu'r Dreth Gyngor llawer uwch, ac mae modd i'r Cyngor yma wneud y naill neu'r llall os mai dyna yw ei ddymuniad. Rhaid cofio fodd bynnag mai effaith lleihau dros y 4 blynedd nesaf fydd cynyddu'r elfen o doriadau gwasanaeth y bydd eu hangen.

Ystyriaethau perthnasol

25. Fel y nodir uchod, mae modd codi llai neu fwy o dreth Gyngor fydd yn effeithio ar lefel y toriadau y bydd eu hangen dros y cyfnod.
26. Nid oes modd effeithio ar y grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru (er bod swyddogion ac aelodau yn barhaus yn gwneud gwaith i geisio sicrhau fod y fformiwla dyrannu yn deg) ond o ran gweddill yr hafaliad mae modd newid y ffigyrau gwariant ond mae yna oblygiadau i hynny wrth gwrs.
27. Gellir cymryd agwedd llai darbodus fyth tuag at rhai elfennau o'r gyllideb ond rhaid cofio o fod yn gwneud hynny ein bod yn cynyddu'r risg o orfod darganfod arbedion yn sydyn a thrwy hynny orfod gwneud penderfyniadau brysiog
28. Mater i'r Cyngor yw ystyried yr holl faterion a nodir yn yr adroddiad sydd ynghlwm ac ystyried a ydynt yn dymuno newid unrhyw elfen ond o'm rhan i fel Aelod Cabinet dwi'n credu mai dyma yw'r balans gorau y gellir ei daro.

Camau nesaf ac amserlen

29. Bydd gofyn i'r cabinet ddod i benderfyniad rhagarweiniol. Yna bydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y sefyllfa a bydd cyfle i'r holl aelodau rododi sylwadau mewn cyfres o seminarau y bwriedir eu cynnal er mwyn egluro'r holl sefyllfa.
30. Byddaf yn adrodd ar gasgliadau rhain oll i gyfarfod y Cabinet ar 19 Chwefror er mwyn iddo ddod i gasgliad terfynol ynglŷn â'r hyn y

bwriedir ei argymell i'r Cyngor yn derfynol ar gyfer ei gyfarfod ar 28 Chwefror.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Nid yw'n newyddion i'r Cyngor bod yr her ariannol yr ydym yn ei wynebu yn un enfawr. Fodd bynnag, mae'r ffaith ein bod, gyda'n gilydd, wedi bod yn paratoi at hwn ers rhai blynyddoedd bellach o gymorth sylweddol i wynebu'r her hwnnw. Mae llwyddiant y gwaith hwnnw yn awr yn golygu, os y medrwn gadw ein disgyblaeth o ran gwireddu arbedion effeithlonrwydd, a chynnal lefel codiad treth fel a argymhellir yn yr adroddiad, ei fod yn bosib i ni gyrraedd 2015/16 neu thu hwnt heb edrych am doriadau gwasanaeth gwirioneddol.

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb

Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r sylwadau hyn yn ffurfio adroddiad y Prif Swyddog Cyllid ar "gadernid yr amcangyfrifon" a "digonolrwydd y reserfau ariannol" yn unol â rhan 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae angen i'r Cyngor ystyried hyn, a'r risgiau cysylltiedig wedi'u hadnabod gan y Prif Swyddog Cyllid, wrth bennu'r gyllideb flynyddol a lefel y Dreth Cyngor.

Rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau perthnasol wrth i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol lunio'r strategaeth ariannol, a gallaf gadarnhau rhesymoldeb y rhagolygon gerbron parthed anghenion gwariant y Cyngor erbyn 2013/14 a thu hwnt. Mae'n anochel fod peth ansicrwydd ynglŷn â ffactorau fel chwyddiant tebygol, rhai penawdau incwm ansefydlog, a gwireddu arbedion sydd wedi'u cynllunio, ond credaf fod tybiaethau teg yn yr adroddiad a bod y tybiaethau rheiny yn cynhyrchu ffigyrau ariannol gyda lefel risg cymedrol a derbyniol.

Er mwyn lleddfu'r risg cysylltiedig â'r strategaeth ariannol yn 2012/13, mae'r Aelodau Cabinet, Pennaethiaid Adran, rheolwyr gwasanaeth a chyfrifwyr sy'n gyfrifol am gyllidebau'r Cyngor yn gyffredinol wedi gweithredu mewn modd

disgybledig a gweithgar i reoli gwariant a sicrhau incwm. Bydd angen yr un fath o reolaeth ariannol cydwybodol eto yn 2013/14.

Mae ymlyniad Cyngor Gwynedd at y cynllun ariannol tymor canol i gyflawni arbedion £37m wedi rhoi Gwynedd mewn sefyllfa gadarn i gynllunio ymlaen, ond mae perygl y bydd raid delio gydag anghenion gwario uwch a thoriadau pellach mewn grant, yn nhermau real, yn 2014/15, 2015/16 a 2016/17. Felly, rhaid gofalu ein bod yn gwarchod balansau cyffredinol y Cyngor yn 2013/14. Rwy'n argyhoeddedig fod yr hyn argymhellir yma, sef cynnal y lefel £8m cyffredol o falansau (gyda chronfeydd penodol digonol), yn ddarbodus os yw'r Cyngor yn cynllunio ymlaen yn briodol ar gyfer parhad y cyfnod o galedi cenedlaethol.

Atodiadau

Papur Strategaeth Ariannol 2013/14 - 2016/17 a Cyllideb 2013/14

STRATEGAETH ARIANNOL 2013/14 – 2016/17

a

CHYLLIDEB 2013/14

1 Cefndir

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw sydd ei angen ar gyfer 2013/14..
- 1.2 Yn sgil y ffactorau yma, mae'r adroddiad hefyd yn argymhell strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd oes y Cyngor presennol (sef 2016/17) ac yn nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y rhaglen gyfalaf am y tair blynedd 2013/14 – 2015/16.

A) Cyllideb 2013/14

2 Grant Llywodraeth Cymru

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad terfynol ar gyfer 2013/14 ynghyd â ffigyrau mynegol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Nodir y manylion isod yn nhabl 1.

Tabl 1
Cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw 2013/14 – 2014/15

£m	2013/14		2014/15
	Cymru	Gwynedd	Gwynedd
2012/13	4,326,633	179,704(*)	183,503
2013/14	4,373,034	181,633	
Cynnydd	1.1%	1.1%	1.0%

* £168.067m oedd y gwir ffigwr grant ar gyfer 2012/13 ond fe addaswyd y ffigwr i gymryd y trosglwyddiadau i mewn i'r setliad i ystyriaeth er mwyn cymharu tebyg at ei debyg.

- 2.2 Fe welir o'r tabl uchod fod cynnydd grant Cyngor Gwynedd yn gyffelyb i'r cynnydd cyfartalog ar gyfer Cymru, ond mae hynny yn cuddio'r faith fod elfen o gynnydd Cyngor Gwynedd yn deillio o'r ffaith fod sylfaen Treth Gyngor Cyngor Gwynedd wedi codi llai na chyfartaledd Cymru.
- 2.3 Oherwydd y ffordd y mae'r broses grant yn gweithio, os bydd cyngor yn medru codi llai mewn treth gyngor na chynghorau eraill oherwydd bod ei sylfaen Treth Gyngor yn cynyddu llai na chynghorau eraill, bydd grant y llywodraeth yn cynyddu'n gymharol i wneud yn iawn am y golled.
- 2.4 Pe na byddai hynny wedi digwydd mae'n debyg y byddem wedi gweld cynnydd llai na'r cyfartaledd oherwydd bod y ffactorau sy'n dylanwadu ar y fformiwla dyrannu yn parhau i fynd yn ein herbyn.

- 2.5 Er enghraifft fe welwyd y patrwm canlynol ar gyfer fformiwla Gwynedd yn 2013/14
- Y cynnydd poblogaeth trydydd isaf drwy Gymru;
 - Niferoedd plant oed cynradd gyda'r cynnydd seithfed isaf drwy Gymru;
 - Niferoedd hawlwrwr cymorth incwm / lwfans chwilio am waith dan 65oed yng Ngwynedd yn cynyddu yr ail leiaf drwy Gymru.
 - Niferoedd yn derbyn lwfans byw i'r anabl neu i rai ag anabledd difrifol yn cynyddu lleiaf drwy Gymru
- 2.6 Rhaid bod yn wylidwrus rhag darllen gormod hefyd i mewn i'r ffigyrau mynegol ar gyfer 2014/15 gan mai'r cyfan a wnaed yma yw symud ffigyrau 2013/14 ymlaen blwyddyn gan newid rhai ffigyrau cyfyngedig fydd yn dylanwadu ar y fformiwla.
- 2.7 Fe fydd yna newidiadau yn sicr o ddigwydd erbyn hynny wrth i Lywodraeth San Steffan newid yr hyn fydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac wrth iddynt hwy hefyd orfod addasu eu cynlluniau o'r herwydd. Gallasem weld newidiadau pellach hefyd i'r fformiwla dyranu grant erbyn hynny.
- 2.8 Un nodwedd o'r ffigwr grant yn y setliad ar gyfer y flwyddyn nesaf yw'r gwahaniaeth sylweddol rhwng gwir ffigwr grant eleni [£168.067m ar gyfer Gwynedd] a'r ffigwr a ddefnyddir ar gyfer cymhariaeth [£179.704m].
- 2.9 Daw'r gwahaniaeth o £11.637m oherwydd bod y Llywodraeth bellach wedi rhoi'r arian ar gyfer darparu cymorth Treth Gyngor yn y setliad [£8.104m i Wunedd]. Mae yna hefyd drosglwyddo nifer o grantiau i mewn i'r setliad [gwerth £3.2m] ac 'rydym hefyd yn derbyn ail ran yr adnodd sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer benthyca i wario ar ein lonydd. Rhoddir mwy o fanylion yn rhan 3.10 yr adroddiad
- 3 Gwariant Refeniw'r Cyngor - 2013/14**
- 3.1 Nodir isod yn nhabl 2 y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen ar gyfer 2013/14.

Tabl 2
Cyllideb 2013/14 (£'000)

	2013/14
Cyllideb Sylfaenol	219,362
Chwyddiant cyflogau	1,369
Chwyddiant arall	1,521
Praeseptau	(20)
Incrementau	156
Pensiynau	336
Llog ar falansau	173
Costau Benthycu	(449)
Demograffi	190
Amrywiol	(1,186)
Llai cyllidebau incwm	602
Trosglwyddiadau i'r setliad	11,723
Pwysau ar wasanaethau	2,028
Cyfanswm gofynion	<u>235,805</u>

- 3.2 **Chwyddiant Cyflogau** - Hwn yw'r brif ragdybiaeth lle nad yw'r ffigwr y bydd ei angen ar gyfer 2013/14 yn hysbys i ni eto. Yn amlwg fe fydd yna bwysau o dy'r undebau i gynyddu cyflogau yn 2013/14 o gofio'r rhewi cyflogau a welwyd dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r Canghellor wedi nodi ei fod am weld setliadau cyflogau'r sector gyhoeddus yn cael eu cyfyngu i 1% yn y blynyddoedd i ddod.

Darparwyd ar gyfer cynnydd o 1% felly yn y gyllideb sylfaenol. Os na fydd ei angen, yna fe fydd yn lleihau ein hangen am arbedion yn 2015/16.

Er mwyn gwarchod rhag y risg y gallasai fod yn uwch, fe osodwyd y gyllideb wrth gefn ar lefel fydd yn ein gwarchod rhag y risg hwnnw. [Gweler cymal 3.12 isod]. Cymerwyd y ddarpariaeth yma hefyd i ystyriaeth wrth ystyried lefel y cynnydd cyflogau i'w gynnwys yn y blynyddoedd i ddod. [Hynny yw, gan fod y gyllideb wrth gefn gennym gellir darparu ar gyfer cynnydd is yn y tafluniadau ar gyfer y dyfodol hefyd sy'n lleihau'r tafluniad arbedion y byddwn eu hangen].

- 3.3 **Chwyddiant arall** - Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli darpariaeth ar gyfer chwyddiant cyffredinol o 1.75% ond gan wneud darpariaeth benodol lle tybir fod y gyfradd chwyddiant am fod yn uwch. Rhai penawdau amlwg sy'n disgyn i'r categori hwnnw yw ynni a thanwydd lle'n hanesyddol fe welwyd cynnydd gwahanol iawn i gyfraddau chwyddiant cyffredinol.

Gan fod Llywodraeth Cymru yn rhoddi arian i ni er mwyn benthycu ar gyfer buddsoddi yn y strwythur priffyrdd a phontydd ni roddwyd chwyddiant ar bennawd cynnal a chadw strwythurau priffyrdd ar hyn o bryd er mwyn cael cyfle i ystyried a ellid defnyddio hwn i'n cynorthwyo i ddarganfod arbedion o fewn y strategaeth ariannol.

- 3.4 **Incrementau a Phensiynau** - Hwn yw'r cynnydd sy'n deillio o rod-di incrementau cyflog i staff, ac mae'r ffigwr pensiynau yn cynrychioli'r cynnydd sydd ei angen yn sgil prisiad diwethaf y Gronfa Bensiwn (sydd yn cynyddu ein cyfraniad cyflogwr 0.5% y flwyddyn hyd at 1 Ebrill 2014).
- 3.5 **Llog ar Falansau** - erbyn hyn 'roeddem wedi disgwyl y byddai cyfraddau llog wedi dechrau atgyfodi ond maent yn parhau i fod yn hanesyddol o isel. Golyga hynny mai bychan yw'r llog yr ydym yn ei dderbyn ar ein balansau bellach a rhaid adolygu'r lefel ar i lawr yn sgil profiad presennol. Nid oes argoel fod hyn am wella dros weddill oes y strategaeth bresennol ac mae'r tafluniadau ar gyfer y tymor canolig yn adlewyrchu hynny.
- 3.6 **Costau benthycu** - yn y tafluniadau a wnaed, 'rydym yn elwa o gostau benthycu is yn y flwyddyn nesaf yn sgil ad-dalu benthyciadau.
- 3.7 **Demograffi** - Fel arfer, 'rydym yn cydnabod nifer uwch yr henoed y byddem yn eu disgwyl oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, ond gan nad yw'r cynnydd disgwylidig y buom yn darparu ar ei gyfer mewn blynyddoedd a fu eto wedi gwireddu ei hun, a chan nad yw'r gwasanaeth eto wedi gorfod defnyddio'r oll o'r ddarpariaeth a wnaed yn 2010/11, nid yw'n fwriad ychwanegu darpariaeth yn 2013/14 gan ddisgwyl y byddwn ei ychwanegu yn 2014/15 os bydd ei angen. [Darparwyd ar gyfer hyn yn y strategaeth tymor canolig].
- Fodd bynnag 'rydym wedi darparu ar gyfer demograffi ym maes anabledd dysgu (£171,000) ac yn y nifer plant o fewn yr ysgolion (£19,000).
- 3.8 **Amrywiol** - Mae'r ffigwr a nodir yma yn deillio o addasiad i gyllidebau yn sgil y ddarpariaeth ormodol a wnaed yng nghyllideb eleni ar gyfer cynnydd ym mhrisiau tanwydd. Ni welwyd gymaint o gynnydd ag a welwyd yn y blynyddoedd a fu ac felly mae modd tynnu'r swm a ddarparwyd (£1.18m) allan o'r gyllideb.

Mae hyn yn cynrychioli'r gost uniongyrchol i ni ynghyd a'r gost anuniongyrchol a delir i gyflenwyr gwasanaethau allanol.

Mae'r Cyngor yn wynebu cost arall yn sgil colled incwm na gyfrifir amdano yma ond yn hytrach o dan y pennawd Incwm Treth Gyngor.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu gweddnewid y gyfundrefn budd-daliadau ac un elfen o'r drefn newydd yw na fydd yna gynllun Budd-Dal Treth Gyngor bellach yn cael ei lunio gan ddeddfwriaeth Brydeinig, ond yn hytrach Cynllun Cymorth Treth Gyngor i'w sefydlu gan gynghorau yn unigol ac i'w ariannu o gyllid sefydlog a roddir iddynt.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu yn hytrach na gadael i bob Cyngor sefydlu ei gynllun ei hun (fel y gwneir yn Lloegr); y dylid cael un cynllun cenedlaethol ac mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu beth fydd natur y cynllun hwnnw.

Yn anffodus, yr un pryd â newid y gyfundrefn, mae Llywodraeth San Steffan wedi lleihau'r adnodd fydd ar gael i dalu am unrhyw gynllun ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oes modd iddynt hwy wneud yn iawn am y bwlch ariannol. Maent wedi llunio cynllun felly fydd yn eu tyb hwy yn cyd-fynd gyda'r adnodd sydd ar gael i dalu amdano (er bod yna amheuaeth gan lywodraeth leol y bydd cost y cynllun yn cyd-fynd â'r adnodd sydd ar gael).

Mae'r cynllun newydd yn golygu y bydd pawb yn talu o leiaf 10% o'r Dreth Gyngor (lle'n flaenorol 'roedd dros 8,000 yng Ngwynedd yn derbyn budd-dal treth gyngor llawn) gyda phawb arall sydd ar fudd-dal Treth Gyngor yn bresennol yn cael llai o gymorth yn y dyfodol.

Bydd yr effaith ar drigolion Gwynedd yn sylweddol wrth gwrs ac mae'r Cyngor yn gweithredu i geisio lleddfu cymaint ar yr effaith yma a sy'n bosibl, ond o ran cyllideb y Cyngor mae yna berygl sylweddol hefyd na fyddwn yn medru casglu cymaint o'r dreth gyngor ag a welwyd yn y gorffennol.

Bydd yn rhaid derbyn felly fod yna debygrwydd cryf y bydd yn rhaid addasu ein ffigwr cyfradd casglu (a osodwyd yn hanesyddol yn 99%) gan ei addasu i lawr i 97.5%. Bydd hyn yn parhau i fod yn un o'r cyfraddau gorau yng Nghymru ac amser a ddengys a yw'n gywir neu a ellir ei adfer yn ôl tuag at y lefel flaenorol neu a oes angen ei addasu ar i lawr ymhellach.

Mae hyn yn gyfystyr â lleihad yn yr incwm y byddwn yn ei gynhyrchu o'r Dreth Gyngor o £784,000 sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffigwr a nodir yng nghymal 5 isod.

- 3.9 **Lleihau Cyllidebau Incwm** - Fe adolygir cyllidebau incwm yn flynyddol i asesu tueddiadau a bellach fe welwyd effaith andwyol ar nifer o benawdau incwm yn sgil y dirwasgiad ynghyd ag effaith tywydd gwael ar rai o gyfleusterau'r Cyngor. Bydd angen lleihau rhai o gyllidebau incwm y Cyngor felly yn sgil ein profiadau. Yn benodol bu'n rhaid gostwng cyllidebau incwm yn y meysydd canlynol -

- Ymgynghoriaeth : £250,000 yn sgil lleihad yn y ffioedd y maent yn medru eu cynhyrchu;
- Meysydd Parcio : £170,000 yn sgil llai o incwm o'r meysydd parcio;
- Hafan Pwllheli : £109,000 yn sgil lleihad yn yr incwm sy'n dod i mewn bellach;
- Man gyllidebau eraill yn sgil gostyngiad incwm yn y theatrau; traethau; harbyrau eraill a chanolfannau croeso £82,000.

3.10 Trosglwyddiadau i'r setliad

- Fel y nodwyd uchod mae'n rhaid i'r gyfundrefn cymorth Treth Gyngor bellach gael ei gadw o fewn yr adnodd sydd ar gael ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr adnodd hwnnw yn y setliad (sy'n gyfystyr i £8.104m i Wynedd). Ni wyddom os bydd y swm yma yn ddigonol i gwrdd â chost y cynllun ond os na fydd, y Cyngor fydd yn gorfod dygymod gyda'r effaith.
- Daw £1.362m o'r swm oherwydd bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi penderfynu trosglwyddo i'r setliad y grant a delir ar hyn o bryd i ariannu lleoedd yn y gymuned ar gyfer unigolion sydd ag anabledau dysgu ac a oedd gynt mewn ysbytai. Mae yna effaith dosraniad yn deillio o'r penderfyniad yma ac mae'r Cyngor yn colli rhywfaint bychan o'r herwydd.
- Daw £874,000 i'r setliad oherwydd bod Llywodraeth Cymru eisiau gosod y gost o dalu am addysg arbennig i rai dros 16 oed yn y setliad (yn bennaf fe gredwn oherwydd bod y gyllideb a elwir amdano yn y maes yma wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd ac maent yn gweld hyn fel ffordd o atal y cynnydd hwnnw). Fe fydd yna adolygiad o'r fformiwla dyrannu maes o law ond ar hyn o bryd rydym wedi derbyn swm sy'n gyfystyr i'r hyn a wariwyd yn 2012/13.
- Daw gweddill y swm a nodir yma oherwydd trosglwyddo nifer o grantiau i'r setliad sef adnodd ar gyfer y Cynllun Benthycia Priffyrdd (£530,000); Grantiau darparu Brecwast am Ddim (£555,000) Grant Cwnsela Plant 10-19 (£176,000); Grant Blas am Oes (sy'n helpu i ddarparu prydau ysgol maethlon (£106,260); a grant bathodynau glas i ddigolledu'r Cyngor am y ffaith na chawn bellach godi amdanynt (£16,000).

3.11 Pwysau ar wasanaethau - Mae yna 3 brif elfen i'r pennawd yma sef

- a) **Ceisiadau a gafwyd gan wasanaethau am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau ar eu gwasanaethau (£1.266m).**

Mae pob gwasanaeth yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau

parhad gwasanaeth sylfaenol. *Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.*

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen sylweddol hefyd o Lywodraeth Ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau a ninnau'n yn gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau (ar ben y ffaith nad yw ein cynnydd grant yn ddigon i gwrdd â chwyddiant).

Mae manylion yr eitemau yma yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân.

Mae'r ffigwr yma yn is o dipyn na'r hyn a welwyd yn hanesyddol.

Yn yr adroddiad hwnnw hefyd fe grybwyllir fod angen cymeradwyo bidiau gwerth £394,250 ar sail unwaith ac am byth er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Gellir ariannu hwn allan o'r £268,050 arian grant cymell perfformiad a gedwir bob blwyddyn at ddibenion unwaith ac am byth gan ychwanegu £126,200 pellach o'r adnodd Dreth Gyngor a osodwyd o'r neilltu ar gyfer 2015/16.

Mae hefyd angen cydnabod fod y gyllideb dros dro a ddarparwyd ar gyfer cyflogi'r Tim sy'n arwain ar y gwaith Ysgolion 21ain ganrif wedi dod i ben eleni a bydd yn rhaid sicrhau cyllideb ar gyfer parhau i gyflogi'r Tim os ydym am barhau i fynd a'r gwaith yma i ben ei daith. Bydd angen cyllideb barhaol o £276,730 ar gyfer hyn.

b) Gofynion Ysgolion (£456,000)

Mae'r Pennaeth Addysg wedi amlygu nifer o anghenion ym maes y gyllideb sydd wedi ei ddatganoli i ysgolion ac yn arbennig gofynion ym meysydd yr agenda cynhwysiad; addysg arbennig a sicrhau ymchwiliadau biwro cofnodion troseddau priodol ar gyfer athrawon.

Gellir cyfarch yr anghenion yma fydd yr un pryd yn cyfarch yr angen i sicrhau cynnydd ariannol i'r ysgolion (gweler rhan 4 isod).

c) Cynllun Tair Blynedd

Hwn yw'r pennawd gwariant ar gyfer unrhyw gynnydd gwariant ar gyfer materion datblygol.

Fe fydd gan y Cyngor nifer o faterion sydd yn flaenoriaeth iddo, fydd yn cael e u nodi yn y Cynllun Strategol a lle bydd galw am fuddsoddiad er budd trigolion Gwynedd a rhaid sicrhau fod y modd ganddo i wneud hynny.

Os ydym hefyd am fedru sicrhau gweddnewid y ffordd mae'r Cyngor yn daprau gwasanaethau, yn unol â'r cyflwyniad a roddwyd gan y Prif Weithredwr i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr, bydd angen sicrhau fod yna gyllideb ar gael ar gyfer hyrwyddo'r newid hwnnw. Yn y pen draw fe allasai hyn wrth gwrs olygu lleihau costau i'r Cyngor sy'n tanlinellu pa mor bwysig fydd y maes yma.

Fodd bynnag dros y blynyddoedd a fu mae'r Cyngor wedi sicrhau fod ganddo gyllideb o £0.9m ar gyfer y pennawd yma ac felly ni fwriedir ychwanegu ato eleni.

- 3.12 **Cyllideb Wrth Gefn** - mae yna gyllideb wrth gefn o £1.6m eisoes yn bodoli ers paratoi cyllideb 2012/13 ar gyfer cynnydd cyflogau uwchben yr hyn a ddarparwyd ar ei gyfer. O gofio'r risg y gallasai hynny ddigwydd yn y ddwy flynedd nesaf a'r risg sylweddol sy'n codi o nifer o benawdau fel cefnogaeth Treth Gyngor; maes trafndiaeth (lle mae'r Llywodraeth yn cwtogi cefnogaeth); a nifer o feysydd eraill lle mynegwyd pryder yn ystod y broses paratoi cyllidebau ynglŷn â digonolrwydd y ddarpariaeth bresennol, ystyrir y byddai'n ddarbodus gadael y gyllideb yma fel y mae hi er mwyn cwrdd ag unrhyw faterion allasai godi o'r herwydd.

Un risg arall o sylwedd na wyddom ei effaith posibl eto yw'r ffaith fod y gyfundrefn pensiynau llywodraeth leol yn newid i un sy'n cofrestru gweithwyr yn otomatig ("auto enrollment") ac fe allasai hyn gynyddu cost rhai gwasanaethau yn sylweddol wrth i fwy o weithwyr ddod yn aelodau o'r Gronfa Bensiwn ac i'r cyngor orfod talu cyfraniad cyflogwr ar eu cyfer.

4 Ysgolion

- 4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi gwarchod grant Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau gostyngiad llai na gweddill y gwasanaethau yng nghyllidebau ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. [Y rhagdybiaeth yw mae'n debyg y byddem wedi gweld cynnydd llai na 1% pe na fyddent wedi rhoi'r warchodaeth yma i ni].
- 4.2 Hyd yma, ein hymagwedd ni tuag at hyn yw parhau i gynllunio ar sail yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud ar gyfer ysgolion gan fesur hynny wedyn yn erbyn bwriad Llywodraeth Cymru ac ystyried a oes angen addasu unrhyw beth er mwyn cydymffurfio a'r addewid.

- 4.3 Eleni mae hynny yn golygu fod angen sicrhau fod ysgolion yn cael cynnydd arian o +2.08%. Mae hyn yn dechrau codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â pha mor rhesymegol yw hi i'r Cyngor barhau i wireddu dymuniad Llywodraeth Cymru tra ei fod yn torri ar wasanaethau eraill er mwyn talu amdano. Ni wyddom wrth gwrs beth fyddai effaith peidio â gwireddu'r dymuniad o ran ymateb Llywodraeth Cymru na'r ysgolion.
- 4.4 Dengys y ffigyrau diweddaraf fodd bynnag y dylem fedru cwrdd â'r gofyn yma eleni drwy sicrhau fod yr adnodd yn mynd i gyfarch rhai o'r problemau y byddai'n rhaid i ni eu cyfarch beth bynnag (gan leihau'r galw ar fidiau o goffrau corfforaethol y Cyngor) (gweler cymal 3.11(b) uchod) a sicrhau ein bod yn datganoli'r elfen cyllideb wrth gefn ar gyfer cyflogau y sonnir amdano yn 3.2 uchod i'r ysgolion gan bwysleisio nad yw ar gael at unrhyw ddefnydd arall yn barhaol.
- 4.5 Yn wahanol i wasanaethau eraill felly, am yr ail flwyddyn yn olynol ni fydd ysgolion yn wynebu arbedion yn 2013/14 heblaw i wynebu'r addasiadau arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion, gyda rhai ysgolion yn elwa a rhai yn colli.
- 4.6 Ar ben hynny, bydd yr holl ysgolion cynradd sydd ddim yn derbyn rhwyd diogelwch yn elwa o'r arbedion sydd wedi deillio o ad-drefnu addysg gynradd yn 2013/14 wrth i £200,000 gael eu hail ddyrannu iddynt.
- 4.7 Wrth baratoi'r gyllideb bob blwyddyn 'rydym yn gwneud gwaith i ystyried a yw ein buddsoddiad ym maes ysgolion yn briodol.
- 4.8 Wrth ystyried beth sydd yn fuddsoddiad addas rhaid ystyried mai teneurwydd poblogaeth ac amddifadedd yw'r ddau ffactor sy'n achosi angen i wario mwy fesul disgybl i gael yr un deilliant. Ar y sail mai Gwynedd yw'r ardal 3ydd mwyaf gwledig o ran teneurwydd poblogaeth, a thua 18fed (yn dibynnu ar yr union fesur) o ran amddifadedd, byddem yn disgwyl i fod rhywle yn yr amrediad yma o ran gwariant cymharol.
- 4.9 Dengys ein hymchwil ar gyfer y sector gynradd mai Gwynedd sy'n gwario 3ydd uchaf yng Nghymru gyda'r gymhareb disgyblion :athrawon 4ydd orau, sydd yn dangos ein bod ar ochr uchaf yr amrediad.
- 4.10 Mae'r sefyllfa gyfartalog yma wrth gwrs yn cuddio amrywiaeth sylweddol rhwng ein hysgolion ac y dylai'n hymdrechion ganolbwyntio ar gael gwell defnydd o'r arian sydd eisoes ar gael.

- 4.11 Yn y sector uwchradd, Gwynedd yw'r 8fed uchaf yng Nghymru ar sail cymhariaeth gwariant. Er hynny, mae'r gymhariaeth disgyblion : athrawon yn dangos sefyllfa ail orau drwy Gymru.
- 4.12 Er ei bod yn ymddangos bod cyllido'r sector uwchradd o fewn yr amrediad disgwylidig, mae i weld yn dechrau llithro i lawr rywfaint ac ystyrir fod angen cadw golwg ar y sefyllfa. Gan fod yna ddatblygiadau ar y gweill (e.e. arian strategaeth cynhwysiad) ddylai wella ein sefyllfa gymharol bydd angen ail-ymweld â'r sefyllfa Uwchradd wrth baratoi cyllideb 2014/15 yn wyneb y wybodaeth gymharol fydd ar gael y flwyddyn nesaf;
- 4.13 O ran ysgolion arbennig, mae gwendidau'r broses hel gwybodaeth ariannol gymharol yn y maes yma yn gwneud unrhyw gymhariaeth yn ddi-werth. Yn wyneb hynny, mae'r Cyngor wedi comisiynu adroddiad ar y sefyllfa gymharol ac mae'r adroddiad honno ar fin ei chwblhau. Bydd yn awgrymu fod yna achos dros fuddsoddi ychydig yn fwy yn y maes. Gellir cyfarch hynny drwy'r adnodd ychwanegol a nodir yn nghymal 3.11 (b) uchod.

5 Crynodeb o sefyllfa 2013/14

- 5.1 Fe welir o'r uchod felly fod anghenion gwario'r Cyngor ar gyfer 2013/14 yn £235.53m (cynnydd o 2%) a byddwn yn derbyn grant o £181.63m oddi wrth Lywodraeth Cymru (cynnydd o 1%).
- 5.2 Ar ben hynny, heb unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor, amcangyfrifir y bydd yna £50.51m yn dod o'r Dreth Gyngor yn 2013/14 (lleihad o'r £51.3m y byddwn yn ei gynhyrchu eleni - gweler cymal 3.8 uchod) yn gadael diffyg felly o £3.39m.

6 STRATEGAETH ARIANNOL PEDAIR BLYNEDD 2013/14 - 2016/17

- 6.1 Fel y nodwyd yn rhan 1 uchod nid yw creu cyllideb ar gyfer blwyddyn ar y tro yn ffordd gyfrifol o weithredu a dylid bod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Dyma fu hanes Cyngor Gwynedd ers rhai blynedd bellach ac mae wedi talu ar ei ganfed gan fod gennym gynlluniau rhesymegol i ddelio gyda'r dyfroedd tymhestlog ariannol sydd yn ein hwynebu.
- 6.2 Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2013/14, gwnaed ymdrech i dafluio sefyllfa ariannol ar gyfer y tair blynedd ganlynol hefyd fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2013/14 yn ei gyd-destun ehangach.
- 6.3 Fe fydd y strategaeth ar gyfer y pedair blynedd i ddod yn cynnwys tybiaethau llai darbodus na'r rhai a ddefnyddiwyd yn y strategaeth flaenorol a hynny er mwyn sicrhau, nad ydym yn gorymateb i'r sefyllfa

(a thrwy hynny wneud toriadau diangen). Mae hefyd yn gosod darlun realistig gyda gobaith o'i gyflawni. Rhoddir manylion y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn Atodiad 2.

- 6.4 Y ffigwr sydd fwyaf annelwig yw'r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2015/16 ymlaen. Gan fod y grant yn cynrychioli tua 80% o incwm y Cyngor, yn amlwg mae'r ffigwr yma yn allweddol i'r tafluniadau. Fodd bynnag gwyddom o ddatganiadau'r Canghellor a datganiadau a wnaed gan Weinidogion yn Llywodraeth Cymru nad yw am fod yn newyddion da i lywodraeth leol yng Nghymru.
- 6.5 Hefyd, fel y byddwn yn mynd ymhellach i'r dyfodol mae yna fwy o ansicrwydd ynglŷn â'r holl ffigyrau ac felly, 'rydym wedi rhannu'r strategaeth 4 blynedd yn ddwy ran fel y nodir isod, gyda'r ddwy flynedd gyntaf yn fwy sicr a'r ddwy flynedd olaf yn darged ar gyfer cynllunio.
- 6.6 Nodir yn y tabl isod canlyniadau'r tafluniadau a wnaed, gan nodi'r arbedion hynny sydd eisoes yn cael eu cynllunio a'u gwireddu.

Tabl 3
Tafluniad cynllunio ariannol ar gyfer y 4 blynedd 2013/14 - 2016/17

£M	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	Cyfanswm
Gofynion Gwario ychwanegol	17.2	7.0	9.4	9.0	42.6
Colled (cynnydd) grant	(13.6)	(0.5)	2.7	1.4	(10.00)
Treth Gyngor (*)	(1.7)	(1.8)	(2.3)	(2.0)	(7.8)
Diffyg Cynlluniedig	1.9	4.7	9.8	8.4	24.8
Cynlluniau £16m	(0.9)	(0.8)	(0.3)		(2.0)
Incwm	(0.1)				(0.1)
1% Effeithlonrwydd	(1.3)	(1.8)	(0.1)		(3.2)
Effeithlonrwydd corfforaethol	(1.4)	(2.0)			(3.4)
I'w ddarganfod drwy -	(1.8)	0.1	9.4	8.4	16.1
Effeithlonrwydd pellach			(6.4) (*)		(6.4)
Lleihau galw			(5.0)		(5.0)
Toriadau (ffigwr balansio)			(4.7)		(4.7)

(*) yn seiliedig ar gynydd cyfartalog o 3.5% y flwyddyn

- 6.7 Fe welir ein bod yn taflunio bwlch ariannol tybiedig dros y 4 blynedd o bron i £25m gan ragdybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.5% ar gyfartaledd bob blwyddyn. Mater i'r Cyngor yw penderfynu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor ymhob blwyddyn ac fe ddoir yn ol at fater cynnydd 2013/14 yn rhan 9 o'r adroddiad. Rhagdybir 3.5% yn y tafluniad uchod er mwyn dangos y bwlch sylweddol sydd yn cael ei adael hyd yn oed ar ol cynnydd o'r fath. Os yw'r Cyngor yn dymuno gweld cynnydd uwch neu is fe fydd yn amlwg yn effeithio ar y ffigwr toriadau a nodir.

- 6.8 Gellir rhannu'r darlun yn ddau – sef y ddwy flynedd gyntaf a'r ddwy flynedd olaf ac mae yna nodweddion ac ystyriaethau gwahanol ar gyfer y ddwy ran.
- 6.9 O ran y cyfnod 2013/14 - 2014/15, er bod yna elfen o ansicrwydd o hyd, mae gennym fwy o hyder yn y ffigyrau sy'n sylfaen i'r darlun, gan ein bod eisoes yn gweithio ar y cynlluniau arbedion ers cryn amser. Mae yna sicrwydd eithaf y dylem fedru gwireddu'r darlun a nodir yn y tabl, gan ddarparu £1.7m yn barod tuag at y bwlch y byddwn yn ei wynebu yn 2015/16 a 2016/17.
- 6.10 Mae'r arbedion a nodir yn parhau i gynnal y lefel arbedion a gynlluniwyd ar ei gyfer yn y strategaeth a luniwyd dwy flynedd yn ol heblaw am ddau gynllun a nodir isod. Serch hynny, bu'n rhaid ail broffilio rhai o'r cynlluniau i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cymryd mwy o amser na ragwelwyd yn wreiddiol i'w cyflawni.
- 6.11 Y ddau gynllun fydd ddim bellach yn gwireddu'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol yw -
- **Cynllun lleihau cefnogaeth i aelodau** - yn y cynigion gwreiddiol y bwriad oedd arbed £54,000 drwy leihau cefnogaeth i aelodau. Fodd bynnag yn ei gyfarfod ar 11 Medi, wrth ystyried y gefnogaeth oedd ei angen ar gyfer aelodau etholedig y Cyngor fe benderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd nad oes modd gwireddu'r arbediad hwn os am ddarparu cefnogaeth briodol i aelodau gan ofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer adnoddau addasu'r strategaeth ariannol er mwy ei ddileu.
 - **Ail ddylunio gwasanaeth gofal preswyl** – gan fod y gost gymharol o ddarparu gwasanaeth yn y sector breifat a'r sector gyhoeddus wedi culhau ni fydd modd gwireddu gymaint ag y disgwyliwyd o arbedion o fewn y cynllun yma a bydd yr arbediad yn lleihau o £838,000 i £601,000.
- 6.12 Ar gyfer y cyfnod dilynol fodd bynnag – sef 2015/16 – 2016/17, mae yna lawer mwy o ansicrwydd ynglyn a'r ffigyrau sydd y tu ol i gyfrifiad y bwlch ariannol, ac i raddau mae'n amhosibl dweud beth fydd y gwir arbediad y byddwn ei angen yn y pen draw – fe allasai fod yn fwy neu'n llai na'r hyn a nodir. *Yr hyn sy'n sicr yw ei fod am fod yn swm sylweddol.*
- 6.13 Ar y sail cynllunio y byddwn angen darganfod tua £16m yn y ddwy flynedd olaf felly, rhagwelir mai drwy'r dulliau canlynol y byddwn yn darganfod y fath fwlch –
- Darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd;

- Bod yn rhagweithiol i leihau'r galw am wasanaethau'r Cyngor ;
(Bydd y ddau opsiwn uchod yn parhau i gyflawni deilliannau i drigolion Gwynedd)
 - Lleihau costau drwy beidio darparu rhai gwasanaethau (toriadau).
- 6.14 Cyfuniad o'r uchod fydd yr ateb terfynol ond gyda phob un pennawd bydd angen hadu'r syniadau nawr os oes gobaith gennym o gael £16m yn barod erbyn y ddwy flynedd olaf.
- 6.15 Yr hyn sy'n amlwg yw bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod wedi uchafu'r symiau a geir o arbedion effeithlonrwydd gan symud wedyn i leihau galwadau ac yna disgyn yn ol ar doriadau fel y cam olaf. Dyma'r ffordd o weithredu os ydym o ddifrif am sicrhau'r effaith lleiaf ar bobl Gwynedd.
- 6.16 Toriadau felly fydd y ffigwr y bydd yn rhaid disgyn yn ol arno os na allwn ddarganfod y symiau o'r ffynonellau eraill. Dylem ymfalchïo yn y ffaith fod trefniadau cynllunio ymlaen llaw'r Cyngor yn golygu nad ydym eto yn gorfod wynebu toriadau - sefyllfa nad yw'n wir ymhob Cyngor.
- 6.17 Bydd angen cyfundrefn syml i reoli'r gwaith o ddarganfod arbedion effeithlonrwydd pellach a lleihau galw gan y cyhoedd a bydd y cabinet yn rhoi mwy o ystyriaeth i hyn yn y dyfodol agos.
- 6.18 Bydd hefyd angen cyfundrefn gynhwysol ar gyfer penderfynu ymhle y byddai unrhyw doriadau yn disgyn os byddwn eu hangen a bydd y cabinet hefyd yn rhoi sylw i gyfundrefn o'r fath yn y dyfodol agos.

7 Cyfalaf

- 7.1 Tra bod cyllidebau refeniw cynghorau yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau gyda'r cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru yn y setliad ar gyfer cwrdd â chostau benthyca yn parhau i ostwng.
- 7.2 Yn 2010/11 'roeddem yn derbyn cefnogaeth oedd yn caniatáu i ni fenthyca £9.867m o gyfalaf bob blwyddyn ac 'roedd Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn seiliedig ar y ffigwr yma.
- 7.3 Ar gyfer 2011/12, gostyngodd y ffigwr yma i £7.891m - colled o £1.976m neu fymryn dros 20% ac yn 2012/13 fe ostyngodd ymhellach i £7.321m (gostyngiad pellach o dros 7%).
- 7.4 Ar gyfer 2013/14 bydd y ffigwr yma yn gostwng eto i £6.709 (gostyngiad pellach o dros 8%). Ers 2010/11 felly mae'r ddarpariaeth a roddir i ni i ariannu buddsoddiad cyfalaf wedi gostwng o bron i draean ar ben y cyfyngiadau refeniw.

- 7.5 Y llynedd fe luniodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer y tair blynedd 2012/13; 2013/14; a 2014/15, ac fe seiliwyd y rhaglen yma ar gynnwys y Strategaeth Asedau.
- 7.6 Nodir y rhaglen a gymeradwyodd y Cyngor y llynedd yn Atodiad 3 gyda rhaglen arfaethedig ar gyfer 2015/16 hefyd yn cael ei ychwanegu.
- 7.7 Tynnir sylw yn benodol at y materion canlynol (sy'n newidiadau i'r proffil a gytunwyd ar gyfer 2013/14 a 2014/15 y llynedd). Nodir yr elfennau lle mae newid i'r hyn a gytunwyd y llynedd mewn llwyd yn yr atodiad.
- 7.8 Er nad yw'r cyfanswm y bwriedir ei wario dros oes y Strategaeth Asedau wedi newid bu angen amrywio'r proffil gwariant o dan y penawdau canlynol er mwyn cydymffurfio'n well gyda'u gallu i wario a'r blaenoriaethu gwaith o fewn y gwasanaeth –
- Cynnal a chadw adeiladau
 - Gwaith Tan ac Asbestos
 - Ffensus diogelwch ar y ffyrdd
 - Cynllun Rheoli Carbon
 - Cynllun Rheoli Cofnodion Electronig
- 7.9 Mae'r proffil ar gyfer Trefniadaeth Ysgolion yn adlewyrchu'r proffil diweddaraf ar gyfer gwario'r cynlluniau gwerth dros £36m a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion y sir. Yma hefyd fodd bynnag bu'n rhaid ychwanegu cyfanswm o £1.25m i ariannu elfennau o waith ar y 9 cynllun fydd o fewn y rhaglen sydd ddim yn gymwys ar gyfer grant Llywodraeth Cymru am nad ydynt ond yn ariannu gwaith unwaith y bydd wedi cyrraedd cam benodol yn y broses. Gweler cymal 7.12 isod ynglyn ag ariannu hyn.
- 7.10 O ran y gwariant ar gynnal ffyrdd fe gynyddwyd y swm dan sylw o ffigwr y llynedd o £3.465m i £4.111m gan fod y grant y byddwn yn ei dderbyn yn ein galluogi i fenthycu ychydig yn fwy na ragwelwyd yn wreiddiol.
- 7.11 Mae'r gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol hefyd wedi nodi fod profiad yn dechrau dangos fod cost creu cell a chapio'r celloedd hynny yn Ffridd Rasmus yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd ar ei gyfer a gwnaed cais i gydnabod y gost uwch yma yn y rhaglen gyfalaf. Byddai hyn yn golygu cost uwch dros oes y Strategaeth Asedau o £315,000 . Gan nad oes llawer o ddewis gennym mewn gwirionedd, argymhellir ein bod yn cymeradwyo hyn. Mae yna waith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i weld a yw'r achos busnes dros greu mwy o gelloedd yn hytrach na throsglwyddo gwastraff i safleoedd eraill bellach wedi newid ac fe

fydd argymhellion yn y maes hwnnw yn cael eu cyflwyno i'r cabinet maes o law.

- 7.12 Yn erbyn hyn fodd bynnag, fe gafwyd adolygiad o'r rhaglen adnewyddu cerbydau yn sgil profiad sy'n dangos ein bod yn medru cadw cerbydau yn hirach na ragwelwyd ac mae hynny yn newid proffil yr angen i adnewyddu cerbydau (gan leihau'r gost dros oes y strategaeth asedau o bron i £1.2m). Bydd y swm yma yn ddigonol i gwrdd â'r cynnydd y sonnir amdano yn 7.9 a 7.11 uchod gan olygu lleihad bychan yn y galw ar yr angen i fenthycu o fewn y strategaeth asedau yn ei gyfanrwydd.
- 7.13 Mae'r swm a nodir o dan "I'w ddyrannu" ar gyfer 2013/14 yn cynrychioli'r swm sydd ei angen i gwrdd â'r bidiau cyfalaf a gafwyd ar gyfer materion nad oedd modd eu rhagweld wrth baratoi'r Strategaeth Asedau.
- 7.14 Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn -

Tabl 4
Ariannu rhaglen gyfalaf 2013/14 - 2015/16

£'000	2013/14	2014/15	2015/16
Gofynion cyfalaf	20,839	15,748	20,346
I'w ariannu drwy			
Darpariaeth cyfalaf yn y setliad	6,709	6,709	6,709
Grant tuag at ysgolion	5,471	1,775	4,781
Derbyniadau cyfalaf	790	2,096	680
Cyfraniad o refferiw	3,758	1,057	3,494
Benthycu darbodus (*)	4,111	4,111	4,682
Cyfanswm ariannu	20,839	15,748	20,346

- 7.15 Un agwedd o'r cynigion cyllido yw lefel y gwariant cyfalaf sydd yn cael ei ariannu o'i gymharu gyda'r gefnogaeth benodol a ddarperir yn y setliad. Mae hyn yn dangos y budd o gael cynllun hir dymor drwy'r strategaeth asedau sy'n caniatáu i ni lunio rhaglen hir dymor a cheisio uchafu'r budd a geir o fuddsoddiad cyfalaf y gellir ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

8 BALANSAU

- 8.1 Rhagwelir y bydd gennym falansau cyffredinol o tua £8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 2.2% o wariant refferiw gros y Cyngor .

- 8.2 Oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, mae'n briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gydag unrhyw broblemau allasai godi.
- 8.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma.
- 8.4 Fodd bynnag mae gennym hefyd nifer o reserfau penodol a sefydlwyd gan y Cyngor ac mae rhain hefyd ar gael i gefnogi anghenion gwariant y Cyngor. Mae yna nifer ohonynt wrth gwrs a bydd y Pennaeth Cyllid yn cynnwys rhestr ohonynt yn y cyfrifon bob blwyddyn.
- 8.5 Er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r Cyngor yn ymwybodol ohonynt atodir copi o'r tudalennau perthnasol o'r cyfrifon yn Atodiad 4.
- 8.6 Mae'n bwysig adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus wrth gwrs ac mae'r Pennaeth Cyllid yn gwneud hynny, ond mae ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad penodol i'r reserfau yma er mwyn asesu a ellid lleihau lefelau rhai ohonynt er mwyn defnyddio unrhyw adnodd a ryddheir ar gyfer y strategaeth ariannol.
- 8.7 Y bwriad fyddai defnyddio unrhyw symiau a ryddheir er mwyn osgoi gorfod gwireddu toriadau ar adeg briodol yn y cylch cyllido. Mae amseru defnydd o'r fath yn allweddol a rhagwelir ar hyn o bryd na fydd y cyfnod hwnnw yn codi hyd nes tua 2015/16 ar y cynharaf. Bydd angen dod 'nôl at y mater yma wrth adolygu'r strategaeth yn y dyfodol.

9 Y DRETH GYNGOR

- 9.1 Y penderfyniad allweddol sydd angen ei wneud yn sgil yr ystyriaethau uchod yw sefydlu union lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor i'w argymhell i'r Cyngor ar gyfer 2013/14.
- 9.2 Yn y tybiaethau a wnaed uchod, fe gymerwyd ffigwr o 3.5% er mwyn dangos effaith hynny ar y strategaeth ond mater i'r Cyngor yw penderfynu ar yr union gynnydd i'w godi.
- 9.3 Yr allwedd i hyn oll wrth gwrs yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas a'r cynnydd sydd yn addas ei godi ar drigolion Gwynedd. Cymhlethir y sefyllfa yn 2013/14 wrth gwrs am fod dros 8,000 o deuluoedd yn mynd i fod yn talu elfen o'r Dreth Gyngor am y tro cyntaf.
- 9.4 Byddai 3.5% yn cynhyrchu £1.768m o incwm a bydda'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Gyngor o £36.16 i eiddo mewn Band D neu ychydig o dan 70c yr wythnos. [Byddai'r dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs]. Mae ychydig dros 19% o dai yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o

gymorth tuag at eu Treth Gyngor, ac mae 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D.

- 9.5 Byddai pob 0.1% yn is na 3.5% yn cynyddu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £50,510 (ac felly byddai 0.5% yn llai yn golygu cynyddu'r bwlch ariannol £252,560 a'i leihau o 1% yn cynyddu'r bwlch ariannol o £505,120). Byddai'r ffigyrau yn union yr un fath ar gyfer unrhyw gynnydd.
- 9.6 Rhaid cofio fod unrhyw gynnydd llai na'r 3.5% dros y 4 blynedd nesaf yn cynyddu'r toriadau y bydd yn rhaid i ni eu gwireddu.
- 9.7 Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru ers 2008/9.

Blwyddyn	Gwynedd	Cymru
Cyfanswm 08-13	20.5%	17.4%
2012/13	3.5%	1.9%
2011/12	3.9%	3.1%
2010/11	3.9%	3.7%
2009/10	3.9%	3.9%
2008/9	3.8%	3.7%

- 9.8 Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2013/14 ond y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw y bydd y nifer helaethaf yn cynyddu o gwmpas y 3% gydag un neu ddau yn son am fynd yn sylweddol is ac un neu ddau yn son am fynd yn sylweddol uwch.
- 9.9 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu yn un anodd wrth gwrs a mater i'r aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol.

10 **ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB**

- 10.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan nad yw'r cynnydd yn ein hincwm yn ddigonol i gwrdd â chostau chwyddiant hyd yn oed, mae'n rhaid edrych am arbedion.
- 10.2 Yn y maes arbedion felly mae'r risg uchaf o ran y posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi adnabod y risg yma ac ers 2010 wedi atgoffa Awdurdodau Lleol o'u dyletswydd i asesu effaith eu penderfyniadau ariannol.

- 10.3 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb ar benderfyniadau ariannol mewn cydweithrediad a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Awdurdodau Lleol eraill, a hynny drwy rannu ymarfer da ac adnabod camau effeithiol i'r dyfodol.
- 10.4 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod unrhyw arbedion sydd eu hangen sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith unrhyw arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Adroddir ar rhain ar wahân.
- 10.5 Nid ceisio cwrdd â chostau chwyddiant yn unig y mae'r gyllideb uchod wrth gwrs, mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b. hefyd n cael eu cyfarch.
- 10.6 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau ac mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod angen sicrhau cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.
- 10.7 Fe geir manylion llawn yr arian ychwanegol a ddarperir yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ac o'r £1.2m a ddarperir yma, fe welir fod dros £800,000 o'r swm yma yn mynd i faes gofal cymdeithasol, a hynny ar ben yr £171,000 arian demograffi a ddarperir er mwyn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer niferoedd uwch ym maes anabledyddysgu.

11 Casgliadau

- 11.1 Mae'r adroddiad yma yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2013/14 a strategaeth arfaethedig ar gyfer dygymod a'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor am y pedair blynedd i ddod.
- 11.2 Argymhellir fod angen cyfarch angen gwario refeniw o £235.81m yn 2013/14 ac ar ol derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £181.63m ac o ystyried y bydd ein hincwm Treth gyngor yn disgyn o £51.3m i £50.51m bydd hyn yn gadael bwlch o £3.67m i'w ddarganfod yn y flwyddyn honno.
- 11.3 Argymhellir felly y dylid cynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% er mwyn gwarchod gwasanaethau o gofio'r sefyllfa ariannol anodd iawn sy'n debygol o'n hwynebu dros y 4 blynedd nesaf gyda'r £1.9m sydd yn weddill yn dod o'r rhaglen arbedion.

- 11.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £233,912,560.
- 11.5 Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.
- 11.6** Mae'r gyllideb a nodir yn arwain at gynnydd yng nghyllideb ysgolion o 2.08% (gydag Addysg yn gyffredinol felly yn cynyddu 1.75%) a chynnydd ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol o 0.4%. Mae gweddill gwasanaethau'r Cyngor hefyd yn gweld cynnydd cyfartalog o 0.4% (ond gyda hyn oll ddim yn adlewyrchu dyraniad arbedion corfforaethol o 1.7m sydd hefyd am ddisgyn ar feysydd heblaw ysgolion).
- 11.7 O ran y sefyllfa dros y 4 blynedd nesaf, y dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £32m a daflunnir ar gyfer y 4 blynedd nesaf drwy gynllunio i gynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfartaledd o 3.5% y flwyddyn fydd yn darparu bron i £8m ar ben yr £8.7m o arbedion yr ydym wedi cynllunio ar eu cyfer yn barod.
- 11.8 Bwriedir darganfod y gweddill drwy osod targed effeithlonrwydd pellach o £6.4m a cheisio gwyro galw am wasanaethau'r Cyngor drwy fod yn rhagweithiol i osgoi creu galw am y gwasanaethau hynny gyda golwg ar ddarganfod £5m pellach. Byddai unrhyw swm ar ol i'w ddarganfod wedyn yn gorfod dod o doriadau.
- 11.9 O ran y rhaglen arbedion sydd gennym eisoes, nodi nad yw'r arbedion ar gyfer lleihau cefnogaeth i aelodau am gael eu gwireddu ac nad yw'r cynllun ar gyfer ail ddylunio gofal preswyl am gynhyrchu cymaint â'r disgwyl.
- 11.10 Cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £20.839m ar gyfer 2013/14; £15.748m ar gyfer 2014/15 a £20.346m ar gyfer 2015/16.

Cyllidebau fesul gwasanaeth 2013/14

	Cyllideb Sylfaenol 2012/13	Trosglwyddiadau i'r Setliad	Chwyddiant	Increments, Cyflogau a Pensiynau	Praeseptau Llog ar Falansau Costau Benthycu a Demograffi	Addasiadau Cyllidebau Incwm	Amrywiol	Addasiadau Eraill	Bidiau	Arbedion Eraill	Cyllideb Sylfaenol 2012/13
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
ADRANNAU											
Tim Arweinyddiaeth	774	0	8	2	0	0	(12)	0	0	(4)	768
Strategol a Gwella	2,619	0	28	18	0	0	(34)	0	0	(40)	2,591
Cyllid	3,944	0	66	28	0	0	(93)	(52)	40	(86)	3,847
Democratiaeth a Chyfriethiol	3,348	0	32	11	0	0	(22)	46	34	(3)	3,446
Gofal Cwsmer	6,721	16	109	34	0	0	(141)	146	176	(71)	6,990
Adnoddau Dynol	3,001	0	31	27	0	0	(45)	0	15	(48)	2,981
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	22,130	0	484	69	0	0	(367)	(3)	258	(566)	22,005
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a GyC)	6,866	0	130	22	0	120	(131)	(23)	196	(287)	6,893
Ymgynghoriaeth Gwynedd	398	0	4	25	0	250	(6)	(69)	0	0	602
Addysg Canolog	13,090	1,711	134	19	0	0	97	(160)	277	(433)	14,735
Cyllideb Ygolion	67,967	0	710	85	19	0	40	146	486	0	69,453
Economi a Chymuned	3,560	0	28	11	0	144	(83)	(100)	0	(31)	3,529
Gwasanaethau Cymdeithasol	53,905	1,362	433	59	171	0	(704)	(49)	887	(601)	55,463
Tai	1,552	0	21	0	0	0	(23)	(18)	23	0	1,555
Darparu a Hamdden	1,715	0	429	81	0	0	(553)	(102)	73	0	1,643
Cyfanswm Adrannau	191,590	3,089	2,647	491	190	514	(2,077)	(238)	2,465	(2,170)	196,501
Materion corfforaethol a chyfalaf	27,817	8,634	243	0	(296)	88	727	238	(394)	278	37,335
CYFANSWM GROS =	219,407	11,723	2,890	491	(106)	602	(1,350)	0	2,071	(1,892)	233,836
Balansau a Reserfau Penodol	(45)	0	0	0	0	0	164	0	(43)	0	76
CYFANSWM NET =	219,362	11,723	2,890	491	(106)	602	(1,186)	0	2,028	(1,892)	233,912

Tybiaethau 4 blynedd 2013/14 - 2016/17

£m	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	Cyfanswm
Ychwanegiadau at y gyllideb					
Chwyddiant Cyflogau	1.3	1.6	3.3	3.3	
Chwyddiant arall	1.5	1.6	1.5	1.5	
Costau cyflogaeth	0.5	0.7	0.7	0.7	
Praeseptau	-	0.2	0.2	0.2	
Costau benthyca	(0.4)	(0.3)	0.5	(0.2)	
Llog	0.2	-	-	-	
Demograffi	0.2	1.0	0.4	0.3	
Pwysau ar wasanaethau	1.7	2.2	3.0	3.2	
Amrywiol	11.9	-	-	-	
Cyfanswm ychwanegiadau	16.9	7.0	9.4	9.0	42.3
LLai cynnydd Grant Llywodraeth	13.6	0.5	(2.7)	(1.4)	(10.0)
Cyfanswm bwlch ar ôl Grant	3.3	6.5	12.1	10.4	32.3

Sail tybiaethau 2013/14 - 2016/17

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Ychwanegiadau at y gyllideb				
Chwyddiant Cyflogau (%)	1.0	1.0	2.0	2.0
Chwyddiant arall (%)	1.75	2.3	2.0	2.0
Costau pensiynau (%)	0.5	0.5	0.5	0.5
Praeseptau	Profiad gorffennol			
Costau benthyca	Gwir dafluniadau			
Llog	Tafluniad ar sail dim newid cyfraddau llog			
Demograffi	Gwir dafluniadau			
Pwysau ar wasanaethau	Tafluniadau ar sail profiad y gorffennol a gwybodaeth am faterion penodol			
Cynnydd Grant Llywodraeth (%)	1.0	0.3	(1.5)	(0.75)

RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2013/14 - 2015/16

£'000	2013/14	2014/15	2015/16
Cynnal a Chadw adeiladau (ymdrin ag ol groniad ac osgoi ol groniad pellach)	5,216	4,501	2,096
Gwaith Tan ac Asbestos	743	626	
Trefniadaeth Ysgolion	5,996	2,379	12,389
Newid dosbarthiadau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes			1,338
Dileu 6 dosbarth symudol Brynrefail	550		
Cynnal Ffyrdd (Cynllun Benthycu)	4,111	4,111	
Goleuadau stryd	50	50	50
Ffensys diogelwch ar y ffyrdd		14	134
Ymdrin â thwr ar y ffyrdd	100	100	100
Meysydd Chwarae	35	35	35
Strategaeth Wastraff y Cyngor	635	430	550
Adnewyddu Cerbydau	0	186	407
Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth	100	100	100
Lonydd Glas	20	20	20
Mewnosod medic baths a sluices	100		
Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth	348	592	501
Sustem electroneg cadw cofnodion a dogfennau	-	328	244
Grantiau Tai	2,000	2,000	2000
Rheoli Carbon	400	-	-
I'w ddyrannu	435	276	382
Cyfanswm	20,839	15,748	20,346

Dyfyniad o'r Cyfrifon terfynol – reserfau penodol

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2011/12.

Reserfau a Glustnodwyd

2011-12	Balans 31 Mawrth 2012 £'000
Reserfau Adnewyddu	1,564
Reserfau Cyfalaf	15,148
Reserfau Yswiriant	3,497
Cronfa Gwasanaethau	6,627
Cronfa Amcan 1	273
Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant	1,515
Reserf Datblygiadau	312
Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion	2,107
Cronfa Gwella'r Cyngor	0
Hyfforddiant Canolog	493
Reserf Canolfan Gyswllt	524
Reserfau Gwasanaethau Ysgolion	944
Reserfau Economi a Chymuned	285
Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol	2,239
Reserf Datblygiadau Gwastraff	566
Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd	185
Reserfau Rheoleiddio	804
Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol	261
Reserfau Eraill Gofal	103
Cronfa Trawsnewid Busnes	244
Cronfa Buddsoddi i Arbed	1,485
	2,098
Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon	
Cronfa Trawsffurfio	4,992
Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu ymrwymo	214
Cronfa Cyfalaf i Wireddu Arbedion	209
Reserf Tandro Contractau	295
Cronfa Gwasanaethau Dwr a Charthffosiaeth Tai	1,458
Gwarant Amgylcheddol Tai	480
Cronfa Rhaglen Arbedion	918

Reserfau Technoleg Gwybodaeth	374
Amrywiol Reserfau Eraill	839
Cyfanswm	51,053

Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

- (i) Mae'r Reserf Adnewyddu yn cael ei ddefnyddio gan yr Adran Darparu a Hamdden, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Economi a Chymuned a'r Argraffdy i adnewyddu cerbydau ac offer.
- (ii) Mae'r Reserf Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes ar gyfer Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.
- (iii) Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag Yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserf Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant perthnasol i'r cyn Cyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996).
- (iv) Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i wasanaethau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.
- (v) Amcan 1 - Cronfa a sefydlwyd ar gyfer costau ychwanegol cyfalaf neu referniw sy'n codi o'r anghenion datblygu cynlluniau ar gyfer Amcan 1.
- (vi) Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant - symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau referniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.
- (vii) Mae'r Reserf Datblygiadau ar gyfer prosiectau penodol a bennwyd eisoes gan y Cyngor fel Tai Fforddiadwy ac E-Lywodraeth.
- (viii) Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion - darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.
- (ix) Cronfa Gwella'r Cyngor - swm a neilltuwyd i gefnogi cynlluniau a allai gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd, gwella perfformiad gwasanaethau, a chryfhau capasiti corfforaethol i gefnogi rheolaeth newid a gwelliant - bellach wedi ei drosglwyddo ac yn rhan o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.
- (x) Hyfforddiant Canolog - perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi rheolwyr.

- (xi) Reserf y Ganolfan Gyswllt - symiau a roddwyd o'r neilltu ar gyfer datblygu'r Ganolfan Gyswllt.
- (xii) Reserfau Gwasanaeth Ysgolion - yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol perthnasol hefo gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.
- (xiii) Mae'r Reserfau Economi a Chymuned, yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau yn ar wahan.
- (xiv) Mae'r Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cynnwys yn bennaf symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhwng sefyllfaoedd anwastad - 'equalisation accounts' a gofynion tebygol contractau.
- (xv) Cronfa ar gyfer datblygiadau ac ymrwymadau perthnasol i'r maes gwastraff yw'r Reserf Datblygiadau Gwastraff gan gynnwys ein hymrwymiad i'r Bartneriaeth Gwastraff Gogledd Cymru.
- (xvi) Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd - cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd anwastad efo gweithiau amddiffyn yr arfordir ynghyd â gofynion cyflogaeth posib yn dilyn o newidiadau yn rhaglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
- (xvii) Reserfau Rheoleiddio - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahan, ynghyd a gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol.
- (xviii) Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol - i gynorthwyo tuag at gost gweithiau cynnal mawr ar ffyrdd sirol.
- (xix) Reserfau Eraill Gofal - cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd anwastad posib efo gofynion contractau.
- (xx) Cronfa Trawsnewid Busnes - Cronfa unwaith ac am byth i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes i wireddu arbedion i'r Cyngor.
- (xxi) Cronfa Buddsoddi i Arbed - Darpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol a bellach yn cynnwys gofynion ac adnoddau Cronfa Gwella'r Cyngor.
- (xxii) Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon - Rhannol ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd a chynhyrchu arbedion refeniw ariannol.

- (xxiii) Cronfa Trawsfurfio – Darpariaeth ar gyfer newid trefniadau mewnol y Cyngor i fod yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon.
- (xxiv) Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo - cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.
- (xxv) Cronfa Cyfalaf i wireddu arbedion – Darpariaeth ar gyfer cefnogi cynlluniau cyfalaf fyddai'n gwireddu arbedion cyllidol refeniw parhaol.
- (xxvi) Reserf Tendro Contractau – ar gyfer ymateb i sefyllfaoedd gwariant anwastad o ganlyniad i'r broses tendro am gontractau cludiant.
- (xxvii) Cronfa Gwasanaethau Dwr a Charthffosiaeth Tai - swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dwr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai Cyngor, na fabwysiadwyd gan Dwr Cymru.
- (xxviii) Gwarant Amgylcheddol Tai - neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud a chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai Cyngor.
- (xxix) Cronfa Rhaglen Arbedion – darpariaeth ariannu strategol i gynorthwyo ac i roddi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cyngor wrth ystyried y rhaglen arbedion angenrheidiol i'r dyfodol.
- (xxx) Reserfau Technoleg Gwybodaeth – cronfa adnewyddu perthnasol i alluogi ymateb i batrymau gwariant anwastad yn y dyfodol.
- (xxxi) Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymadau dibynnol eraill.

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	14 Chwefror 2013
TEITL:	Bidiau Refeniw a Chyfalaf
PWRPAS:	Ystyried yr argymhellion parthed cyllido'r bidiau
GWEITHREDIAD:	Craffu'r argymhellion parthed cyllido'r bidiau
SWYDDOGION CYSWLLT:	Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella
AELODAU CABINET:	Arweinydd y Cyngor

1. Cefndir

- 1.1 Fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2013/14, mae'r Cyngor yn gwahodd bidiau refeniw a chyfalaf. Pwrpas y papur hwn yw adrodd ar ganlyniad gwaith blaenoriaethu'r bidiau hynny. Yn unol â'r fframwaith cynllunio busnes, mae'r bidiau wedi eu hadnabod gan y gwasanaethau wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a chynlluniau gwasanaeth blynyddol.
- 1.2 Eto eleni, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddychrynlyd o heriol, gwahoddwyd bidiau o dan y **categori anorfod** yn unig, sef "*gwariant anorfod i gadw gwasanaeth ar ei lefel bresennol neu ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd sylweddol na all yr Adran eu cyfarfod*". Argymhellir cymeradwyo bidiau am ddwy swydd newydd yn unig.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried bidiau a oedd yn cyd-fynd â'r diffiniad **anorfod** yn unig.
- 1.4 Fe dderbyniwyd bidiau nad oedd yn cyd-fynd â'r diffiniad gan eu bod yn ddatblygol eu natur. Un enghraifft oedd bid gan yr Adran Addysg am Gydlynnydd Siarter Iaith. Fe fydd y bidiau datblygol perthnasol yn cael eu hystyried yn ddiweddarach o fewn y drefn o ddatblygu Cynllun Strategol newydd y Cyngor ac fe fydd yr argymhellion ariannu hynny yn mynd gerbron y Cyngor Llawn ym mis Mai.

2. Y Broses Blaenoriaethu

Yn dilyn y gwahoddiad gwreiddiol, derbyniwyd bidiau refeniw cyfwerth a £ 2,410,373 (parhaol), a £ 714,200 (unwaith ac am byth), ynghyd a bidiau cyfalaf o £1,003,600.

Fel y gwelir ar y taenlenni sydd ynghlwm, mae'r symiau yr argymhellir eu cyllido fel a ganlyn:

Bidiau Refeniw Parhaol – £1,265,980

Bidiau Refeniw unwaith ac am byth - £394,250

Bidiau Cyfalaf - £435,000

Amlinellir isod y prif gamau yn y broses ar gyfer blaenoriaethu'r bidiau:-

- asesiad agoriadol o'r holl fidiau a gyflwynwyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, er sicrhau mai dim ond bidiau anorfod oedd yn cael ystyriaeth.
- yr Adran Strategol a Gwella, yn seiliedig ar y manylion a gyflwynwyd a thrafodaethau pellach gyda'r gwasanaethau, yn paratoi argymhellion ac adroddiad drafft o ran blaenoriaethu a chyllido'r bidiau
- y Tîm Rheoli yn ystyried papur yr Adran Strategol a Gwella a chytuno argymhellion.
- Y Panel Strategaeth Ariannol yn ystyried yr argymhellion.
- Ymgynghori â'r Grŵp Busnes ar yr argymhellion
- Y Pwyllgor Archwilio, Cabinet y Cyngor a'r Cyngor llawn i ystyried a mabwysiadu'r Strategaeth Ariannol, y blaenoriaethau a ffynonellau cyllido yn eu cyfarfodydd yn Chwefror a Mawrth 2013.

3. Argymhellion.

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ystyried y daenlen sydd ynghlwm:

- (i) yr argymhellion parthed cyllido'r bidiau refeniw sydd yn cael eu hystyried yn anorfod a'r bidiau na argymhellir eu cyllido o fewn y gyfundrefn bidiau am y rhesymau a nodir - **Atodiad A**
- (ii) Rhestr o'r bidiau cyfalaf a dderbyniwyd, a'r argymhellion parthed cyllido'r bidiau - **Atodiad B.**

Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

Rhif	Rheswm tros y bid	Person Cyfrifol	Amlinelliad o'r Mater	Manylion y bid a ddaeth i law		Argymhelliad	Symiau Argymhellir	
				Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)		Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)
Adran Addysg								
ADD1	Swyddog Data	Dewi R Jones Owen Owens	Bid i gyflogi swyddog i ymgymryd â'r rôl o gasglu a phrosesu data Gwynedd a pharatoi'r ffordd at weithredu o fewn y trefniadau rhanbarthol safonol o ran casglu, prosesu a dadansoddi data ysgolion. Mae trefn hanesyddol wedi golygu ein bod wedi gallu ariannu'r maes hwn trwy gyfrwng cytundeb Cynnal hyd yma, ond oherwydd y newid yn nhrefniadau cefnogi ysgolion, ni fydd yr adnodd hwnnw ar gael i'r gwaith yma. O ran gwariant fesul disgybl ar swyddogaethau canolog yn ymwneud ag ysgolion (ac eithrio Cludiant):- Gwynedd yw'r 5ed uchaf ymhlith 9 awdurdod y "teulu". H.y. ar y canolrif (sef £322.52 fesul disgybl)	59,814		I'w gyllido o adnoddau'r Adran oni fydd y gwaith yn rhan o gytundeb y Consortiwm.	0	0
ADD2	ONE - Rheolwr Rhaglen Rheolaeth Gwybodaeth Rhanbarthol	Dewi Jones Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau	Cyfraniad Gwynedd tuag at benodi Rheolwr Rhaglen fydd yn cysoni'r ffordd mae'r cynghorau yn defnyddio'r rhaglen ONE, ac i weithredu'r modiwlau newydd sydd wedi cael eu prynu. Mae cynghorau Gogledd Cymru yn cydweithio i sefydlu Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GEGYR) i wella perfformiad yr ysgolion rhanbarthol.		13,000	I'w osod yn erbyn costau sefydlu'r prosiect.	0	0
ADD5	ONE – Swyddog Cysoni Data	Dewi Jones, Addysg Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau	Penodi Swyddog Cysoni Data dros dro i wneud darn sylweddol o waith ar y data hanesyddol gedwir yn ONE. Yn ychwanegol, mae angen cysoni data rhwng ONE a SIMS (sef system yr ysgolion) O ran gwariant fesul disgybl ar swyddogaethau canolog yn ymwneud ag ysgolion (ac eithrio Cludiant):- Gwynedd yw'r 5ed uchaf ymhlith 9 awdurdod y teulu.		17,354	I'w osod yn erbyn costau sefydlu'r prosiect.	0	0
ADD6	CRBs Athrawon Llanw	Dewi R Jones Owen Owens	Adroddiad Archwilwyr mewnol wedi amlygu'r gofyn i adnewyddu gwiriadau CRB athrawon llanw yn gyfnodol (pob 3 blynedd)	7,817	23,452	I'w ariannu o'r twf yng nghyllidebau'r ysgolion.	0	0
ADD8	CRBs Staff ysgol - cyfnodol	Dewi R Jones Owen Owens	Mae adolygiad o ofynion Diogelu Plant wedi amlygu'r angen i gynnal gwiriadau CRB ar bob aelod o staff ysgol yn gyfnodol (bob 3 blynedd)	44,616		I'w ariannu o'r twf yng nghyllidebau'r ysgolion.	0	0
ADD9	CRBs Staff ysgolion wedi'u penodi cyn 2002	Dewi R Jones Owen Owens	Daeth gofynion gwiriad CRB ar gyfer staff ysgol yn weithredol ar ôl 1/9/2002. Mae adolygiad o ofynion Diogelu Plant wedi amlygu'r angen i gynnal gwiriadau CRB ar bob aelod o staff ysgol (pryd bynnag y'u penodwyd)		7,128	I'w ariannu o'r twf yng nghyllidebau'r ysgolion.	0	0
Cyfanswm Adran Addysg				112,247	60,934		0	0
Adran Adnoddau Dynol								
AD2	Gwirio Cofnodion Troseddol Staff mewn swyddi wedi'u rheoleiddio (CRB)	Geraint Owen	Bwriedir sicrhau bod gwiriadau CRB yn cael eu cynnal a'u hadnewyddu pob tair blynedd ar gyfer pob unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth "reoledig", e.e Gwasanaeth leuencid, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd, Croeswyr Plant Ysgol ayyb. Mae'r polisi cyfredol yn mynnu gwiriadau wrth benodi'r staff, ond heb bob amser sicrhau adnewyddu pob 3 blynedd.	15,000		Ariannu'r bid i sicrhau gweithredu polisi o adnewyddu CRB pob 3 blynedd, yn unol a'r arfer gorau.	15,000	
Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol				15,000	0		15,000	
Adran Cyllid								
CYLL1	Costau ariannu Cynllun Cymorth Treth Cyngor lleol fydd yn disodli Cynllun Budd-dal Treth Cyngor cenedlaethol.	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid Anthony V Jones, Uwch Reolwr Refeniw	Yn 2013 mae cynllun Budd-dal Treth Cyngor yn cael ei ddisodli gan y cynllun Cymorth Treth Cyngor lleol. I weithredu'r drefn newydd fydd angen datblygu ein meddalwedd craidd cyfredol. Mae cost o £59,000 i ddatblygu ein systemau craidd cyfredol ar gyfer gweithredu'r cynllun newydd. Yn ogystal â datblygu meddalwedd, bydd angen gweithredu cynllun cyfathrebu i ddarparu cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r rhai sy'n cael eu heffeithio yn benodol a rhagwelir ysgrifennu'n uniongyrchol at dros 11,000 o hawlwr presennol, addasu gwefan y Cyngor a gwneud cyflwyniadau i bartneriaid y Cyngor, megis Y Ganolfan Waith, Gwasanaeth Pensiwn, CAB, Cymdeithasau Tai, ac amryw o fforymau eraill. O ran y swyddogaeth trethi lleol yn ei gyfanrwydd (casglu treth gyngor, treth fusnes a budd-daliadau treth cyngor) gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£17.85 fesul annedd yn erbyn canolrif o £15.24).		59,000	Yr adran i flaenoriaethu cyllido pryniant y meddalwedd. Mae'r ymgyrch cyfathrebu yn digwydd eleni.	0	0
CYLL2	Sicrhau sylw priodol i'r trethdalwyr effeithir gan gyflwyno'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (sy'n disodli Budd Dal Treth Cyngor) ar 1 Ebrill 2013.	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid Anthony V Jones, Uwch Reolwr Refeniw	Cyflogi dau swyddog i roi cyngor ac arweiniad i drethdalwyr fydd yn gorfod talu treth cyngor am y tro cyntaf, er mwyn lleihau'r angen i erlyn am symiau bychan iawn, a chan gynnig cymorth i bobl tra bregus. Bydd disgwyl sylfaenol i'r Cyngor gasglu ac adfer £2m o dreth cyngor ychwanegol a hynny yn effeithio holl achosion cyfredol budd dal treth cyngor (11,000 achos) gan na warchodir yr un math o hawlwr o dan y gyfundrefn newydd. Rhagwelir mai balansau cymharol fychan fydd 75% o'r achosion i'w casglu. Bwriedir cynnig cyngor ac arweiniad cynnar i drethdalwyr fydd yn talu treth Cyngor am y tro cyntaf, er mwyn lleihau'r angen i erlyn am symiau bychan iawn, a chan gynnig cymorth i bobl tra bregus. O ran y swyddogaeth trethi lleol yn ei gyfanrwydd (casglu treth gyngor, treth fusnes a budd-daliadau treth cyngor) gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£17.85 fesul annedd yn erbyn canolrif o £15.24)	40,440		Ariannu'r bid i sicrhau gwasanaeth cynghori i drigolion mewn sefyllfa fregus. Y cyllid i'w ryddhau yn 2014/15 yn ddibynnol ar ddyfodol cyllid Llywodraeth Cymru.	40,440	

Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

Rhif	Rheswm tros y bid	Person Cyfrifol	Amlinelliad o'r Mater	Manylion y bid a ddaeth i law		Argymhelliad	Symiau Argymhellir	
				Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)		Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)
CYLL3	Sicrhau adnodd i ddelio'n briodol â addasiadau i bolisi rhyddhad trethi busnes yn dilyn adolygiad yr Athro Morgan, ynghyd â sicrhau sylw i'r cam arfaethedig i godi premiwm treth cyngor ar dai gwag hir dymor, dyddiad effeithiol y 2 agwedd yn 1 Ebrill 2013.	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid Anthony V Jones, Uwch Reolwr Refeniw	Adnodd i ddelio ag addasiadau i bolisi rhyddhad trethi busnes yn dilyn adolygiad y Llywodraeth Cymru mewn perthynas a chodi premiwm ar dai gwag hir dymor Bydd rheoliadau yn eu lle yn fuan, yn bur debyg yn effeithiol o'r 1 Ebrill 2013. O ran y swyddogaeth trethi lleol yn ei gyfanrwydd (casglu treth gyngor, treth fusnes a budd-daliadau treth cyngor) gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf o ran gwariant ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£17.85 fesul annedd yn erbyn canolrif o £15.24).	20,220		Cyllido oddi mewn i adnoddau presennol yr Adran.	0	0
CYLL4	Gofynion ariannol a chyfrifo ychwanegol ar gyfer trefniadau cyd-weithio.	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid	Adnodd staffio dros dro yn flynyddol i ymateb i'r gofyniad am gynnal cyfrifon ar wahân, cynhyrchu cyfrifon terfynol a datganiad o'r cyfrifon ar wahân a llawn ar gyfer rhai amgylchiadau cyd-weithio, ac yn benodol endid fel cydbwyllgor. Mae'r amserlen cynhyrchu a chwblhau cyfrifon blynyddol yn un heriol iawn fodd bynnag, ac fe ragwelir na fydd modd cynnwys yr holl waith ychwanegol yma a'r ymlygiadau ariannol ychwanegol perthnasol o fewn yr adnoddau adrannol presennol.	20,000		Cyllido fel rhan o achosion busnes y cynlluniau cydweithio perthnasol.	0	0
Cyfanswm Adran Cyllid				80,660	59,000		40,440	0
Adran Democratiaeth a Chyfreithiol								
DC1	Cyflwyno Cofrestru Etholwyr Unigol	Dilys Phillips Iolo P Roberts	Adnoddau staffio a choastau atodol ychwanegol i ymateb i'r gofyn statudol am drefn lle mae pob unigolyn yn gorfod cael ei gofrestru yn unigol ar y gofrestr etholwyr yn hytrach na'r drefn bresennol o gofrestru unigolion ar sail eiddo erbyn 2016. Mae'n debyg y bydd bid ychwanegol yn 2014/15. O ran pennawd Etholiadau (sy'n cynnwys cofrestru etholwyr yn ogystal â chost yr etholiadau eu hunain):- gwariant Gwynedd ydi'r 6ed uchaf ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£2.45 fesul etholwr yn erbyn canolrif o £3.20).		18,995	Adran i gyllido, gan fod tanwariant ar y gyllideb bresennol.	0	0
DC2	Swyddog Cydraddoldeb Anabledd	Dilys Phillips Siôn Huws	Penodwyd Swyddog Cydraddoldeb Anabledd i weithio gyda gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cwrrd â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddfwriaeth Anabledd. Cyllid tymor byr oedd mewn lle, ac ar ôl i'r cytundeb ddod i ben ym mis Mai 2011 ariannwyd y swydd o arian wrth gefn yr Adran Strategol a Gwella. Trosglwyddwyd y swydd i'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn ystod 2012-13, ynghyd â swm o arian i ariannu'r swydd hyd nes diwedd y flwyddyn honno yn unig. Un o ofynion statudol y Ddeddf yw ymgysylltu ac mae'r swyddog yn gyfrifol am y Grŵp Craidd Anabledd, sy'n cynrychioli barn defnyddwyr ar waith y Cyngor. Mae hefyd yn bwynt cyswllt gyda'r Grwpiau Mynediad, sy'n rhoi barn arbenigol pobl anabl ar hygyrchedd yr amgylchedd lleol. Mae'r elfennau yma yn mynd tu hwnt i gydymffurfiaeth statudol drwy sefydlu dolen gyswllt annibynnol rhwng pobl anabl a'r Cyngor, gan sefydlu perthynas gyson a phositif a darparu strwythur cadarn i rannu gwybodaeth.	34,371		Ariannu'r swydd yn barhaol	34,370	0
DC3	Trefn gwynion y Cyngor	Dilys Phillips a Gwenan Parry Sion Huws ac Idris Jones	Adnodd ychwanegol i ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru sydd wedi cyhoeddi Polisi Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus yn anelu at gyflwyno trefn gwynion gyson a chydnybodedig ymhob corff cyhoeddus, yn hytrach na'r trefniadau presennol sydd yn amrywio rhwng Adrannau.	27,753		Y gwasanaethau i ail-ddylunio trefniadau oddi mewn i'r adnoddau cyfredol.	0	0
Cyfanswm Adran Democratiaeth a Chyfreithiol				62,124	18,995		34,370	0
Adran Gofal Cwsmer								
GC1	Uwchraddio meddalwedd pendesg	Gwenan Parry Huw Ynyr	Uwchraddio meddalwedd y Cyngor, trwy gynllun lesio meddalwedd Microsoft. Oni ellir uwchraddio, gall problemau sylweddol godi yn sgil cytundebau cyfnewid gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, a chan na fydd y darparwr yn fodlon cynnal y meddalwedd.	175,838		Ariannu'r bid er mwyn sicrhau parhad y trefniadau trwyddedu meddalwedd a chyfnewid gwybodaeth.	175,840	0
GC2	Cwrrd ag anghenion cynnydd mewn darpariaeth TG	Gwenan Parry Huw Ynyr	Dwy swydd ychwanegol i ymateb i gynnydd sylweddol mewn darpariaeth TG, ac i ymestyn oriau agor y Ddesg Gymorth am awr ychwanegol. Mae'r nifer o alwadau y mae'r ddesg gymorth yn ei dderbyn wedi treblu yn y chwe blynedd diwethaf, a bu cynnydd hefyd yn y nifer o ddyfeisiadau a chymhlethdod yr arlwy newydd. Mae'r Uned bellach yn cefnogi PDA's, ffonau symudol a thabledi cyfrifiadurol, yn ogystal a chefnogi gweithio o gartref. Nid oes capasiti digonol o fewn y Tim i wneud y gwaith arloesi a datblygol sy'n angenrheidiol i gael y budd mwyaf o'r datblygiadau technolegol.	74,086		Blaenoriaethu adnoddau o fewn yr Adran.	0	0
GC3	Diweddaru Asesiadau Asbestos	Dafydd Gibbard / Catrin Love	Mae'r bid yma am waith newydd, sef gwella a diweddaru'r wybodaeth am leoliad asbestos yn adeiladau'r Cyngor. Mae'r gwaith gwreiddiol o adnabod ei leoliad wedi ei gwblhau rhwng 2004- 2008. Mae'r cofnod yma bron yn 10 oed mewn rhai achosion felly ac ers 2010 mae gofynion newydd ynglŷn â beth sy'n rhaid ei archwilio.		300,000	Ariannu o'r Cynllun Rheoli Asedion gan leihau'r ddarpariaeth Cynnal a Chadw.	0	0
Cyfanswm Adran Gofal Cwsmer				249,924	300,000		175,840	0

Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

Rhif	Rheswm tros y bid	Person Cyfrifol	Amlinelliad o'r Mater	Manylion y bid a ddaeth i law		Argymhelliad	Symiau Argymhellir	
				Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)		Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol								
PB1	Twnel Caernarfon	Gwyn Morris Jones Colin Worth	Cyfrifoldeb am oleuadau'r Twnel wedi ei drosglwyddo i'r Adran gyda chyfrifoldeb am gynnal y goleuadau/offer trydanol, TCC a.y.y.b. Mae yna gynnydd sylweddol yn y gost o drydan ac mae'r cais ar gyfer cwrdd â'r gost. Pennawd Goleuo Strydoedd: Gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu". (£101.63 fesul golau stryd yn erbyn canolrif o £89.82).	25,000		Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn.	0	0
PB2	Cynnydd yn y Rhwydwaith Ffyrdd	Gwyn Morris Jones Steffan Jones	Mae hyd ffyrdd dros y tair mlynedd diwethaf wedi cynyddu o ganlyniad i newidiadau yn y rhwydwaith Ffyrdd Sirol e.e. ffyrdd osgoi, ffyrdd di-ddosbarth, mabwysiadu ffyrdd ystadau ayyb. Gwariant Gwynedd ydi'r 6ed uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu". (£1,145 fesul km ffordd yn erbyn canolrif o £1,226).	33,037		Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn.	0	0
PB4	Rheoli Risg Coed yn Syrthio (Gwaith Bwrdeistrefol)	Gwyn Morris Jones Alun Wyn Jones	Cynnal archwiliadau a gwaith trin a diogelu coed ar dir agored Bwrdeistrefol ar draws y Sir yn unol a Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i Reoli Risg o Coed yn Syrthio.	8,000		Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn.	0	0
PB5	Pont Abermaw – Les Network Rail	Gwyn Morris Jones Amanda Murray	Nid yw hwn yn wasanaeth sy'n hunan-gynhaliol bellach gan fod problemau staffiodiweddar yn gorfodi newid i'r ddarpariaeth drwy beidio codi toll ac felly bydd angen am yr hawl o lesu'r bont gan Network Rail. Mae'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru.	30,000		Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn.	0	0
PB8	Strategaeth Wastraff	Gwyn Morris Jones Steffan Jones	Parhad o'r strategaeth wastraff gytunedig, ac am elfennau ychwanegol i ymdrin a matresi, carpedi a rwbel. Mae'r bid yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn y Strategaeth wreiddiol am y flwyddyn hon, sef £563,000.	176,050	82,370	Ariannu i adlewyrchu gofynion diwygiedig y Strategaeth Wastraff gytunedig	176,050	82,370
Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol				272,087	82,370		176,050	82,370
Adran Rheoleiddio								
RH1	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn	Aled Davies Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio Polisi – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd)	Mae Gwynedd a Môn yn cydweithio'n ffurfiol ar fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ac yn rhannu'r costau ar sail 50/50.Cais am arian i sicrhau cyfraniad Gwynedd i gynnal a chwblhau'r broses o baratoi CDLI ar y cyd. Pennawd Polisi Cynllunio. Gwariant Gwynedd ydi'r 5ed uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu" (h.y. ar y canolrif sef £4.61 fesul pen).		119,901	Ariannu er mwyn sicrhau bod y cynllun strategol allweddol hwn yn ei le erbyn 2016.	0	119,900
RH2	Llwybr yr Arfordir	Aled Davies Wyn Williams	Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eu bwriad i gefnogi awdurdodau lleol i gyllido costau staff, cynnal a chadw a datblygu pellach pan ddaw'r rhaglen bresennol i be 31 Mawrth 2013. Fodd bynnag, bydd disgwyl i'r awdurdodau lleol gyfrannu 25% o'r costau. Amcangyfrifir mai £62,500 fydd y gost i Gyngor Gwynedd ond mae £15,000 eisoes mewn llaw yn y gyllideb bresennol.	47,500		Rheoliadau ariannol yn nodi fod gwasanaethau yn gyfrifol am gwrdd a goblygiadau refereniw unrhyw gynlluniau twf a fabwysiedir.	0	0
RH5	Gwasanaethau Bysiau	Aled Davies Dafydd W. Williams	Mae risg sylweddol wedi ei amlgyu yn codi o'r toriad grant LTSG ac o'r drefn a ddefnyddir gan y Llywodraeth i ddosrannu cymhorthdal i wasanaethau cludiant. Er nad ydym, ar hyn o bryd yn gwybod be fydd toriad LTSG gan y Llywodraeth, mae toriad yn sicr o ddigwydd. Eleni roedd son am doriad o 28%, gafodd wedyn ei leihau i 10%. Mae hyn yn gyfystur ac oddeutu £62,350 am y flwyddyn 2012-13. Mae potensial o doriad hyd at 20% yn 2013-2014 sydd yn gyfystur ac oddeutu £120,000 ychwanegol. Mae hefyd bwriad i dorri grantiau i gwmnïau bysiau ar eu lwfans tanwydd, fydd gyda potential uchel o effeithio phrisiau sybsidi rhai gwasanaethau. Ni ellir darogan yr effaith ariannol yma ar wasanaethau ar hyn o bryd ac fe allai hyn arwain at fidiâu pellach yn y dyfodol, efallai o fewn blwyddyn ariannol. Pennawd Cludiant Cyhoeddus. Gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£18.42 fesul pen yn erbyn canolrif o £13.39)	182,350		Angen edrych yn fanwl ar y maes hwn yn sgil yr holl newidiadau arfaethedig mewn grantiau.	0	0
RH8	Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn – Capasiti'r Tim CDLI	Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn)	Yn hanesyddol, ariannwyd un o swyddi CDLI gan arian grant. Nid oes sicrwydd y bydd yr arian hwn ar gael ar gyfer 2013/14. Pennawd Polisi Cynllunio. Gwariant Gwynedd ydi'r 5ed uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu" (h.y. ar y canolrif sef £4.61 fesul pen).	75,660		Ariannu am 2 flynedd - bydd elfen o'r grant ar gael a allai gael ei gyfeirio i'r pwrpas hwn, ac felly bydd yr Adran yn ariannu unflwyddyn o gyflogaeth y swydd.	0	75,660
Cyfanswm Adran Rheoleiddio				305,510	119,901		0	195,560
Adran Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden								
GCT2	Effaith cau Canolfan Bro Dysynni, Tywyn dros do oherwydd gwaith cynnal a chadw	Morwena Edwards Gwenno Williams	Cais i ddigolledu'r Gwasanaeth am golli incwm tra bydd Canolfan Hamdden Dysynni ar gau am 4-5 mis yn ystod gwaith cynnal a chadw angenrheidiol. Mae'r swm yn seiliedig ar incwm y cyfnod cyfatebol llynedd, net o unrhyw ostyngiad yn y costau yn ystod y cyfnod cau. Pennawd "Hamdden a Chwaraeon". Gwariant Gwynedd ydi'r 2il uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu" o ran gwariant fesul pen o'r boblogaeth - £31.97 yn erbyn canolrif o £24.73.		73,000	Ariannu i sicrhau incwm y gwasanaeth tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo.	0	73,000

Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

Rhif	Rheswm tros y bid	Person Cyfrifol	Amlinelliad o'r Mater	Manylion y bid a ddaeth i law		Argymhelliad	Symiau Argymhellir	
				Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)		Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)
GCT3	Ffioedd Preswyl a Nyrsio	Morwena Edwards John Trefor Williams	Adolygwyd ffioedd Preswyl a Nyrsio yn Hydref 2011 a phenderfynwyd eu cynyddu mewn tri rhanddaliad. Dyma'r cais am y trydydd rhanddaliad. Gwariant Gwynedd yw'r 2il uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£882.98 fesul poblogaeth dros 65, yn erbyn canolrif o £796.83). Oherwydd maint y gwasanaeth yma mae'r gwahaniaeth yma yn un sylweddol mewn termau ariannol, yn cyfateb i tua £2.2m uwchlaw'r canolrif.	250,200		Ariannu i gydnabod yr ymrwymiad a wnaed.	250,200	0
GCT4	Bidiau Cyfnod Trosiannol 18+	Morwena Edwards Ann Lloyd Jones – Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion Ceryl Teleri Davies– Rheolwr Gwasanaeth Oedolion (Iechyd Meddwl ag Anabledd Dysgu)	Cais am gyllid i ariannu pecynnau gofal dwys iawn ym maes anabledau dysgu yn dilyn trosglwyddo'r unigolion dan sylw o'r Gwasanaeth Plant yn 18 oed. Mae'r swm yma yn deillio o anghenion dwys iawn iawn y cleientiaid dan sylw. Pennawd Gwas Cym Anabledd Dysgu (Oedolion rhwng 18-64 oed). Gwariant Gwynedd yw'r 4ydd uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£164.93 fesul poblogaeth 18-64 oed, yn erbyn canolrif o £164.22).	695,000		Ariannu i adlewyrchu'r gofynion dwys iawn ychwanegol ar y Gwasanaeth Oedolion. Mae darpariaeth o £171,000 eisoes wedi ei wneud at bwrpasau demograffi, a rhagwelir tanwariant o leiaf o £50,000 ar anabledau dysgu.	474,000	0
GCT7	Swyddog Gofal Cwsmer a Dyletswydd (Sirol)	Awen Morwena Edwards Iona Griffith	Fel rhan o ddatblygu Derwen sef Tim Integredig Plant Anabl Gwynedd, llwyddwyd i sefydlu swydd sirol Swyddog Gofal Cwsmer a Dyletswydd trwy gyllid blwyddyn drosiannol Teuluoedd Lyn Gyntaf. Mae'r swyddog yn gweithio'n agos iawn efo teuluoedd ar ôl i'r cyfeiriad gael ei dderbyn, trefnu asesiad cychwynnol a'r cyfarfod cynllunio cyntaf aml-asiantaethol, cadw mewn cysylltiad yn ddiweddarach a chydweithio gyda staff perthnasol eraill. Ni fydd y swydd yn gymwys am arian Teuluoedd yn Gyntaf dan y drefn newydd. Yn y categori "Comisiynu a gwaith cymdeithasol" o fewn Gwas Cym Plant, gwariant Gwynedd ydi'r 2il uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£192.09 fesul poblogaeth dan 18, yn erbyn canolrif o £148.80). Maes Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn gwario'n uchel yn gyffredinol mewn cymhariaeth â'r "teulu", yn gyfystyr â tua £3.5m uwchlaw'r canolrif.	40,510		Grant yn dod i ben - yn unol â'r trefniant arferol, yr Adran i wneud darpariaeth	0	0
GCT8	Swyddog Gwasanaeth Cefnogol	Awen Morwena Edwards Iona Griffith	Cais am arian i gyllido Swyddog Gwasanaethau Cefnogol ychwanegol i leihau pwysau ar staff presennol a lleihau'r risg o ddadgofrestru gan AGGCC. Byddai un swyddog arall yn sicrhau bod pob gweithiwr cefnogol yn cael goruchwyliaeth rheolaidd; bod asesiad risg cyfredol ar gyfer pob plentyn a gweithgaredd; bod y Swyddogion Gwasanaeth Cefnogol yn gallu cyflwyno gweithwyr i'r plentyn a monitro'r ddarpariaeth yn ddigonol. Yn y categori "Comisiynu a gwaith cymdeithasol" o fewn Gwas Cym Plant, gwariant Gwynedd ydi'r 2il uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£192.09 fesul poblogaeth dan 18, yn erbyn canolrif o £148.80). Maes Gwas Cym Plant yn gwario'n uchel yn gyffredinol mewn cymhariaeth â'r "teulu", yn gyfystyr â tua £3.5m uwchlaw'r canolrif.	34,371		Ariannu i adlewyrchu'r twf yn y galw, y cynnydd yn nifer y staff cefnogol a'r gofynion goruchwyllo ychwanegol ddaw yn sgil hyn. Rhan o'r adolygiad <i>cychwyn i'r diwedd</i> .	34,370	0
GCT9	Nifer cleientau Plant Mewn Angen a Phlant Mewn Gofal	Awen Morwena Edwards Sharron Williams Carter/Aled Gibbard Est 2714/2713	Dros y blynyddoedd diwethaf, fe welwyd twf yn nifer y ceisiadau am wasanaeth, cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ogystal â chynnydd yn y niferoedd o achosion plant mewn angen. Yn sgil hyn fe welwyd cynnydd hefyd yn y nifer uchel o achosion llys cymhleth, ymweliadau statudol a'r angen i gwblhau asesiadau craidd a chynnal adolygiadau statudol. Gwneir cais am un swydd gweithiwr cymdeithasol ychwanegol i gyfarfod â'r gofyn cynyddol a chais am gyllid i gefnogi achosion a'r gofyn statudol ar y gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd ee hybu cyswllt plant mewn gofal. Cost gweithiwr - £43,010 a chostau eraill ar gyfer cefnogi achosion - £43,320 sef cyfanswm £86,330. Plant mewn Gofal: Mae gwariant Gwynedd yr uchaf ymhlith y "teulu" o 9 (£357.52 fesul poblogaeth dan 18, yn erbyn canolrif o £197.11). Mae hyn yn gyfystyr â thua £3.7m mewn cyfanswm, h.y. y categori yma sydd fwy neu lai'n egluro y lefel gwariant uchel ar Gwas Cym Plant yn ei gyfanrwydd.	86,330		Ariannu'r gweithiwr cywanegol i adlewyrchu'r twf yn y galw, a chostau eraill; unwaith ac am byth nes bydd canlyniad yr adolygiad <i>cychwyn i'r diwedd</i> ar gael.	43,010	43,320
GCT10	Gweithwyr Allweddol Oed Trosglwyddo	Awen Morwena Edwards Iona Griffith 01286 674686	Cais i gynnal y cynllun gweithwyr allweddol ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion gan fod oes y grant gwreiddiol wedi dod i ben a'r cyllid ERF ychwanegol hefyd yn dod i ben Mawrth 2013.. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth i bobl ifanc drosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion.	45,380		Grant yn dod i ben - yn unol a'r trefniant arferol, yr Adran i ystyried gwneud darpariaeth	0	0
GCT12	Deddf LASPO 2012	Morwena Edwards Aled Gibbard	Cais am arian i ymateb i ofyn deddfwriaethol newydd. O Ebrill 2013 bydd y cyfrifoldeb ariannol ar gyfer remand diogel yn cael ei ddatganoli. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn parhau i gomisiynu lleoedd carchar, ac yn penderfynu ble i leoli pobl ifanc sy'n cael eu remandio i ddalfa diogel, ond byddent yn anfonebu awdurdodau lleol am y gost. Mae'r ffigwr wedi ei seilio ar gyfartaledd nifer yr achosion perthnasol yn y tair blynedd diwethaf.	53,990		Disgwyl eglurder ar ddatganoli cyllid ac argaeledd grant.	0	0

Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

Rhif	Rheswm tros y bid	Person Cyfrifol	Amlinelliad o'r Mater	Manylion y bid a ddaeth i law		Argymhelliad	Symiau Argymhellir	
				Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)		Parhaol (£)	Unwaith ac am byth (£)
GCT13	Swyddog Adolygu/Cadeirio	Awen Morwena Edwards Eleri Ellis Evans Est 2507	Cais am arian i greu swydd cadeirydd annibynnol ar gyfer adolygiadau statudol plant mewn gofal a chynadleddau achos er mwyn ymateb i'r cynnydd mewn adolygiadau. Mae nifer yr adolygiadau wedi cynyddu o 354 i 459 yn y tair blynedd diwethaf, ac mae angen y swydd hon i sicrhau cynnydd yn y perfformiad, ac hefyd i ymgymryd a rol sicrwydd ansawdd.	48,970		Yr Adran i flaenoriaethu'r adnodd sydd eisoes ar gael.	0	0
GCT14	Swyddog Cynorthwyol Cynllun Lesu Sector Preifat	Morwena Edwards Susan Griffith	Yr angen i barhau i gyflogi Swyddog Cynorthwyol Cynllun Lesu pan fydd y cytundeb yn dod i ben diwedd mis Rhagfyr 2012, ar sail barhaol a llawn amser. Penodwyd Swyddog Cynorthwyol Cynllun Lesu yn Hydref 2010 wedi ei ariannu gydag arian bid ar sail dros dro, rhan amser, 18.5 awr yr wythnos am ddwy flynedd. Mae'r Adran wedi llwyddo i ymestyn y cytundeb tan Rhagfyr 2012 ac i'w gwneud yn llawn amser ers Mawrth 2012. Cynllun Lesu wedi cyfrannu at arbedion sylweddol ar wariant gwely a brechwast ers 2006.	22,700		Cyllido'r swydd yn barhaol.	22,700	
GCT16	Cais am swydd newydd – Cefnogi Pobl	Awen Morwena Edwards Arwel W Owen Sheila Phillips	Cais am arian i gyllido swydd o fewn yr Uned Cefnogi Pobl yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb am Grant Refeniw Cefnogi Pobl £2.6 miliwn i awdurdodau lleol ei weinyddu.	35,370		Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn.	0	0
Cyfanswm Adran Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden				1,312,821	73,000		824,280	116,320
CYFANSWM				2,410,373	714,200		1,265,980	394,250

Atodiad B - Bidiau Cyfalaf 2013-14

Rhif	Rheswm tros y bid	Person Cyfrifol	Amlinelliad o'r Mater	Swm y Bid (£)	Argymhelliad	Swm a Argymhellir
Adran Addysg						
ADD10	ONE – gweithredu modiwlau ychwanegol	Dewi Jones, Addysg Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau, est 2169	Mae cynghorau Gogledd Cymru yn cydweithio i sefydlu Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GEGYR) i wella perfformiad yr ysgolion rhanbarthol. (Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Lletyol i'r gwasanaeth newydd.) Un agwedd greiddiol i'r cynllun ydy defnyddio'r pecyn Capita ONE i ddarparu'r ystod o ddata sydd ei angen i gefnogi arweinydd system newydd y GEGYR. Mae gwaith sylweddol angen ei wneud yng Ngwynedd er mwyn gweithredu modiwlau newydd o ONE. Fe fydd y brif gost ar hyfforddiant a sefydlu adroddiadau.	41,100	Mater datblygol gwasanaeth i'w ystyried gan yr Adran.	0
Cyfanswm Adran Addysg				41,100		0
Adran Adnoddau Dynol						
AD1	Rhaglen Dreigl o Welliannau Diogelwch Tu Fewn i Safleoedd Ysgolion	Alwyn Evans Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol fel Cadeirydd Grwp Aseu Risg Dafydd W. Williams Est. 2422	Sefydlwyd y rhaglen dreigl hon i ddiwallu anghenion rhybudd cyffredinol gan AGID yn 2004 i wella'r sefyllfa draffig o fewn ysgolion y Sir. Mae'r bid yma ar gyfer y 4 cynllun risg uchaf yn y rhaglen waith.	70,000	Ariannu i sicrhau diogelwch safleoedd risg uchaf.	70,000
Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol				70,000		70,000
Adran Rheoleiddio						
RH3	Rhaglen gyfalaf Llwybr yr Arfordir a chysylltiadau	Aled Davies Wyn Williams 2363	Rhaglen bresennol y Cynllun hwnyn dod i ben ddiwedd Mawrth 2013, Adnabuwyd rhaglen waith 3 blynedd er mwyn cwblhau'r llwybr yng Ngwynedd. Pwrpas y cais ydy sicrhau cyfraniad y Cyngor tuag at raglen o waith cyfalaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eu hymrwymiad i ariannu'r gwaith o 2013 ymlaen a disgwylir mai 75% o'r costau a ddaw gan y Llywodraeth a bydd gofyn i'r awdurdod ddarganfod y gweddill.	137,500	Ariannu'n rhannol er mwyn uchafu'r budd economaidd a denu grantiau, ar yr amod bod 75% o'r costau i'w talu gan y Cynulliad.	100,000
RH6	Rhaglen Dreigl i Leihau Damweiniau	Aled Davies Dafydd W. Williams Est. 2422	Gweithredu rhaglen dreigl o gynlluniau diogelwch ar rwydwaith briffyrdd y Sir. Codi safon rwydwaith briffyrdd y Sir, trwy fuddsoddi yn ddoeth ar welliannau yn y lleoliadau lle gwelir clystyrau o ddamweiniau/digwyddiadau.	200,000	Cynllun Rheoli Asedau wedi blaenoriaethu a phennu gwariant yn y maes hwn am gyfnod o 10 mlynedd.	0
RH7	Rhaglen Dreigl o Fân Welliannau Priffyrdd	Aled Davies Dafydd W. Williams Est. 2422	Gweithredu rhaglen dreigl o fân welliannau priffyrdd o fewn y tair ardal weithredol er mwyn sicrhau rwydwaith ddiogel i ddefnyddwyr a gwell lle i fyw i drigolion. Gwella mynedfeydd/cyffyrdd troedau ayyb	150,000	Cynllun Rheoli Asedau wedi blaenoriaethu a phennu gwariant yn y maes hwn am gyfnod o 10 mlynedd.	0
Cyfanswm Adran Rheoleiddio				487,500		100,000
Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol						
GCT18	Ymestyn y Cynllun Gweithio'n Hyblyg	Morwenna Edwards Glenda Lloyd-Evans	Gwasanaeth Oedolion yn Meirionnydd wedi bod yn rhan o gynllun peilot Gweithio'n Hyblyg. Sefydlwyd y peilot gyda chost unwaith ac am byth o £24,000 gan gynnwys holl gostau offer TG a hyfforddiant. Gwneir cais am arian unwaith ac am byth i brynu laptops i ymestyn y cynllun i Arfon a Dwyfor.	20,000	Hwn yn destun achos busnes ymestyn ar draws y sir gan Adnoddau Dynol - fe ddylid diwallu unrhyw ofyn ychwanegol o fewn yr achos busnes hwnnw neu o fewn adnodd y gwasanaeth.	0

Atodiad B - Bidiau Cyfalaf 2013-14

Rhif	Rheswm tros y bid	Person Cyfrifol	Amlinelliad o'r Mater	Swm y Bid (£)	Argymhelliad	Swm a Argymhellir
Cyfanswm Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol				20,000		0
Adran Economi a Chymuned						
EC2	Cronfa Datblygu Gwirfoddol- Cefnogaeth i'r Trydydd Sector	Sioned E Williams Amanda Davies (01248 605276)	Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cefnogi'r sector wirfoddol drwy'r gronfa yma ers 1996. CDS y Swyddfa Gymreig oedd ffynhonnell wreiddiol yr arian, ond ers 2001/02 mae'r arian wedi dod yn rhan o'r setliad. Mae'r gyllideb flynyddol yn gyfanswm o £250,000, sydd wedi ei rhannu i £110,000 referniw a £140,000 cyfalaf. Rheolir y gyllideb dan frand llwyddiannus Cist Gwynedd. Mae Cist Gwynedd yn cynnwys pecyn o grantiau i gefnogi gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol.	140,000	Mae £70K o'r swm yma wedi ei ymrwymo ar gyfer y Gronfa Gyfenter, ac mae grantiau oddeutu £1.4m yn deillio o hynny. Mae'r ceisiadau am hanner arall y gronfa eisoes yn uwch na £70K, ac amgangyfrifir bod grantiau oddeutu £200K yn deillio o hynny.	140,000
EC5	Cynllun Cei Aberdyfi (Rhagbaratoi)	Sioned E Williams – Pennaeth Economi a Chymuned Llyr B. Jones – Uwch Reolwr Economi a Chymuned (est. 2219)	Rhagwelir risg erbyn tua 2016, y byddai'n rhaid cau y Cei oni ellir gwneud y gwaith yma, gyda goblygiadau difrifol i drigolion a defnyddwyr. Cyflwynir y cais yma am arian ar gyfer comisiynnu gwaith dylunio (a peirianyddol) manwl, ynghyd a pharatoi ceisiadau a manylion cysylltiedig er mwyn sicrhau hawliau statudol Dros y blynyddoedd, mae cyflwr polion llenni (sheet piling) dur y cei wedi bod yn dirywio, ac mae'r sefyllfa wedi ei fonitro'n gyson gan Uned Amddiffyn yr Arfordir y Cyngor. Gobeithir, o baratoi'r cynlluniau, y gellir denu grantiau i wneud y gwaith	125,000	Arian i gomisiynu'r gwaith	125,000
EC6	Canolfannau Celfyddydau Digidol Gwynedd	Sioned E Williams – Pennaeth Economi a Chymuned Roland Evans – Uwch Reolwr Economi a Chymuned (est. 2450) Nest Thomas – Prif Swyddog Amgueddfeydd a'r Celfyddydau (est.2098)	Mae'r diwydiant sinema a ffilm yn mynd trwy gyfnod o chwyldro ar hyn o bryd wrth i hen gyfarpar seliwloid 35mm gael ei ddisodli gan dechnoleg digidol. Erbyn hyn mae Neuadd Dwyfor a Neuadd Buddug yn cael trafferth wrth geisio rhaglennu ar y ffilmiau 35mm traddodiadol ac heb ymateb i hyn yn fuan, bydd incwm yn gostwng yn sylweddol. Eisoes mae incwm hysbysebion ar 35mm hefyd yn gostwng ac mae hi'n debygol y bydd cost ychwanegol ar gael ffilmiau 35mm ar ddyddiad eu rhyddhau. Gallai'r gwarant ar eu cyfer fod mor uchel â £1,000. Pe na bai modd arddangos ffilmiau newydd ni fyddai modd o gwbl cyrraedd y targedau incwm presennol, a byddai hyfywdra'r ddau leoliad mewn perygl.	120,000	Achosion busnes i ddod i gasgliad yn y flwyddyn nesaf - y materion hyn i gael ystyriaeth gfel rhan o'r ymarferiad hwnnw.	0
Cyfanswm Adran Economi a Chymuned				385,000		265,000
CYFANSWM				1,003,600		435,000

CYFARFOD	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD	14 CHWEFROR 2013
TEITL	RHEOLAETH TRYSORLYS DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2013/14
AWDUR	DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET	Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

Cyflwyniad a Chefnidir

1. Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi bwriad y Cyngor wrth ymdrin â'i holl weithrediadau trysorlys. Prif ofyniad y Cod yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd rhain (parthed 2012/13) gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2012.
2. Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn gorfodi'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan gall awdurdodau gyfuno'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol mewn un adroddiad. Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw, felly mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi'i chynnwys yn rhan 7 o **Atodiad A**.
3. Yn ôl y Cod a'r cyfarwyddyd, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) a Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2013/14 yn **Atodiad A**.
4. Yn ychwanegol, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith ddarbodus newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu newydd ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y "Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities" ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd penderfyniadau i wario cyfalaf. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Yn dilyn o'r adolygiad diweddaraf mae CIPFA wedi cyflwyno un dangosydd darbodus newydd, "Terfynau uchaf ar gyfran dyled net i ddyled gros", er mwyn tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi. Mae'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar gynigion ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf sydd mewn adroddiadau eraill ar y rhaglen, wedi'u cynnwys yma yn **Atodiad B**.

5. Diweddarwyd y rhestr o wrthbartion (**Atodiad C**) er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Mae uchafswm cyfnod y benthyciad ar gyfer yr holl sefydliadau wedi'i godi o 1 flwyddyn i fyny i 2 flynedd er mwyn adlewyrchu'r argymhellion yma. Nodir y swm ynghyd â'r hyd uchaf ar gyfer buddsoddiadau, er cyfyngir at flwyddyn neu llai ar hyn o bryd, yn dibynnu ar statws bob sefydliad.
6. Yn weithredol o'r 31ain o Fawrth 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithredu'r gyfundrefn Benthycia Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) blynyddol.
7. Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLIR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae'r strategaeth atodol yn rhan 10 o **Atodiad A** yn cynnwys y Datganiad DLIR Blynyddol ar gyfer 2013/14.
8. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau i gyfarfod briffio ar 29 Ionawr 2013 gydag Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, i drafod Rheolaeth Trysorlys. Atgoffwyd aelodau o God Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys, ynghyd a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau am weithgaredd Rheolaeth Trysorlys. Amlygodd yr ymgynghorwyr wahanol risgiau cyfredol i'r trysorlys, a thrafodwyd mewn manylder risgiau credyd, risgiau gyda gwrthbartion, risgiau cyfraddau llog a risg cyfradd chwyddiant. Hefyd, trafodwyd portffolio dyled y Cyngor, y sefyllfa benthycia net, a'r dangosyddion darbodus.

Argymhelliad

9. **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymhell i'r Cyngor Llawn 28 Chwefror fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2013/14 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B) a'r Atodlenni Rheolaeth Trysorlys (Atodiad C).**

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS
A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2013/14 I 2015/16

1. Cefndir

- 1.1 Mae Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cod Darbodus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae'r TMSS hefyd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (AIS), sy'n ofynnol yng Nghanllaw Buddsoddi Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Yn unol â gofynion y Cod Darbodus, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 3 Mawrth, 2011.
- 1.3 Diben y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys hwn felly yw cymeradwyo:
- Y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2013/14;
 - Y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2013/14;
 - Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16;
 - Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR);
 - Diwygiadau i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2012/13.
- 1.4 Mae'r Awdurdod wedi benthycu a/neu fuddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly'n agored iawn i risgiau ariannol posib, gan gynnwys colli'r arian a fuddsoddwyd ac effaith cyfraddau llog newidiol. Felly, mae llwyddiant wrth adnabod, monitro a rheoli risgiau yn elfen greiddiol o strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

2. Gofyn Cyllido Cyfalaf

- 2.1 Caiff yr angen sylfaenol i fenthycu at ddibenion cyfalaf ei fesur drwy'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR). Y CFR, ynghyd â'r cronfeydd defnyddiadwy (Usable Reserves), yw'r gyrwyr craidd tu ôl i weithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor.
- 2.2 Ceir lefel dyled a buddsoddiadau presennol y Cyngor isod:

	31 Rhagfyr 2012 £m
Benthycu Allanol:	
Cyfradd Sefydlog – PWLB	96.6
Cyfradd Sefydlog – Y Farchnad	16.2
Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill Lesau Cyllidol	0.0
Cyfanswm Dyledion Allanol	112.8
Cyfanswm Buddsoddiadau	(63.2)
Sefyllfa Fenthycu Net	49.6

- 2.3 **Arian a Fenthycwyd Cyn i'r Angen am Wariant Godi:** Gall y Cyngor fenthycu cyllid tu hwnt i lefel cyfredol ei CFR hyd at y lefel a ragamcanwyd yn 2015/16. Mae'n debygol y bydd y Cyngor ond yn benthycu cyn bod angen os bydd yn teimlo bod y buddion o fenthycu ar y cyfraddau llog fel y maent, o gymharu â sut y disgwylir iddynt fod yn y dyfodol, yn gorbwyso'r gost a'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â buddsoddi'r arian tan fod gwir angen benthycu'r arian.
- 2.4 Mae'r symudiad a ragwelir yn y CFR dros y blynyddoedd i ddod yn un o'r Dangosyddion Darbodus. Mae'r symudiad yn y gwir ddyled allanol a chronfeydd defnyddiadwy yn dod at ei gilydd i ffurfio gofyn benthycu'r Cyngor, a'i strategaeth fuddsoddi bosib nawr ac yn y dyfodol.

Tabl 1: Mantolen yn rhoi Crynodeb Dadansoddol

	2012/13 Amcan £m	2013/14 Amcan £m	2014/15 Amcan £m	2015/16 Amcan £m
Cyfanswm Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR)	156.06	160.31	165.38	167.66
Llai: Proffil Benthycu Cyfredol ac Ymrwymadau Hirdymor Eraill	(113.09)	(111.97)	(115.98)	(120.98)
Llai: Ymrwymadau Tymor Hir Eraill	0	0	0	0
Uchafswm Gofyn Benthycu Allanol Cronnus	42.97	48.34	49.40	46.68
Cronfeydd Defnyddiadwy	(63.45)	(57.02)	(55.37)	(56.25)
Gofyn Benthycu Net / (Buddsoddiadau) Cronnus	(20.48)	(8.68)	(5.97)	(9.57)

3. Rhagolygon Cyfraddau Llog

- 3.1 Mae rhagolygon Arlingclose o ran cyfraddau llog yn parhau â'r thema a fu dros y blynyddoedd diwethaf, sef y bydd cyfraddau llog yn aros yn is am gyfnod hirach hyd yn oed. Yn wir, rhagwelir y bydd cyfraddau llog swyddogol y DU yn parhau ar 0.5% tan 2016 o ystyried y rhagolwg llwm am dwf economaidd a'r estyniad o fesurau llym a gyhoeddwyd yn Natganiad y Canghellor yn yr hydref. Hyd nes y ceir datrysiad credadwy i'r problemau sy'n llechu yn Ardal yr Ewro – a bydd y datrysiad hwnnw angen uniad cyllidol ar raddfa eang sydd yn wynebu sawl rhwystr gwleidyddol arwyddocaol – yna bydd statws diogel y DU a'r annhebygolrwydd o gynnydd mewn cyfraddau llog swyddogol yn parhau i gyfuno i gefnogi'r thema o fewn y rhagolwg.
- 3.2 Mae'r rhagolygon economaidd a chyfraddau llog canlynol wedi'u darparu gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose Ltd. Bydd y Cyngor yn ail werthuso ei strategaethau o dro i dro mewn ymateb i ddigwyddiadau economaidd, gwleidyddol a chyllidol.

	Mar-13	Jun-13	Sep-13	Dec-13	Mar-14	Jun-14	Sep-14	Dec-14	Mar-15	Jun-15	Sep-15	Dec-15	Mar-16
Official Bank Rate													
Upside risk			0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Downside risk		-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
3-month LIBID													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
Central case	0.40	0.40	0.40	0.45	0.45	0.50	0.50	0.50	0.55	0.55	0.55	0.60	0.60
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
1-yr LIBID													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
Central case	0.85	0.90	0.95	0.95	1.00	1.00	1.00	1.00	1.10	1.10	1.10	1.10	1.10
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
5-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	0.95	0.95	0.95	0.95	1.00	1.00	1.00	1.00	1.10	1.10	1.10	1.20	1.20
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
10-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	2.00	2.00	2.05	2.05	2.05	2.05	2.10	2.10	2.10	2.20	2.20	2.20	2.20
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
20-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	2.90	2.90	2.90	2.90	3.00	3.00	3.00	3.00	3.10	3.10	3.10	3.10	3.10
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
50-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	3.35	3.35	3.35	3.40	3.40	3.40	3.50	3.50	3.50	3.50	3.50	3.60	3.60
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25

Tybiaethau Sylfaenol:

- Mae'n annhebyg y bydd tyfiant y DU yn codi uwchben y tueddiad diweddar, hyd y gellir rhagweld. Roedd GDP Chwarter 3 yn gryf sef 0.9% ond nid yw'r momentwm hwn yn debyg o barhau yn Chwarter 4 nac yn ystod 2013. Nid yw'r ail-falansio oddi wrth dreuliant a yrrwyd gan y sector cyhoeddus i fuddsoddi gan y sector breifat wedi ei wireddu eto a does dim arwyddion mawr o dwf cynhyrchiant. Mae cyfyngu pellach yn ardal yr Ewro, gan gynnwys economi cryf yr Almaen, a rhagolwg twf araf yn yr economïau allddod (Brasil/Mecsico/India) yn gwaethygu'r gwendid.
- Mae Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) wedi gostwng i 2.7% o'r brig o 5.2%. Mae'n debygol y bydd cyfnewidioldeb mewn prisiau nwyddau yn effeithio ar y CPI yn y dyfodol agos a disgwylir y bydd ei ostyngiad tuag at y targed o 2% yn arafach na'r hyn a amcangyfrifwyd. Rhagwelir i wir dyfiant cyflogau (h.y. ar ôl chwyddiant) aros yn wan.
- Mae'r rhagolwg cyllidol ar gyfer gostyngiad yn y diffyg strwythurol a sefydlogi'r lefelau dyled yn dal yn heriol iawn. Credadwyaeth wannach i'r DU sydd yn ffrwyno'i lefelau dyled yn creu risg i'r statws AAA, ond mae hanes diweddar (UD, Ffrainc) yn awgrymu nad yw gwerthiant giltiau yn ddilyniant awtomatig.
- Mewn absenoldeb gostyngiad annisgwyl mawr mewn tyfiant, maen tebyg arhosir pryniannau ased (Quantitative Easing) ar £375bn am rŵan. Mae'r argaeledd benthyciadau banc rhatach ac ar ôl hynny ar gyfer cyrff corfforaethol trwy'r Cynllun Benthycia i Ariannu yn ffactor cefnogol.
- Mae'r newid mewn arweiniad cyfraddau'r Gronfa Ffederal yr UD o arwydd seiliedig ar ddyddiad i drothwyon economaidd (6.5% diweithdra, tafluniad chwyddiant 1 - 2 flynedd i aros o dan 2.5%, disgwyliadau tymor hirach ar gyfer chwyddiant yn aros yn sefydlog) yn debyg i gynyddu ansicrwydd y farchnad yn sgil rhyddhadau data cyflogaeth yr UD gorfnewidiol.
- Mae cynnydd araf yn ardal yr Ewro wedi cwtogi rhywfaint o'r risgiau ar hyn o bryd, er bod y gwledydd ymylol yn parhau i ymdrechu i oroesi'n ariannol. Mae uniad bancio a chyllidol cyflawn yn dal i fod rhai blynyddoedd i ffrwrdd.

- Yn yr UD, mae'r materion fel toriadau gwariant, lleihau'r diffyg cyllidebol a chodi nenfwd dyled y wlad yn dal heb eu datrys. Gall diffyg i'w datrys erbyn Mawrth 2013 arwain at wrthdaro eto a pheryglu is-raddiad i gyfraddiad credyd soffren yr UD gan un neu fwy asiantaeth.
- Gellir gwrthdroi teimlad risg y farchnad o'r sefyllfa gyfredol "risg ymlaen" i "risg i ffwrdd" gan sbardun o ddigwyddiadau economaidd a/neu wleidyddol - etholiadau Eidaleg ac Almaeneg gerllaw, cyfwng nenfwd dyled y UD, anhawster o gwmpas cymorthdalw Cyprus, a haint yn dychwelyd i boeni'r cenhedloedd Ewropeaidd ymylol - a chreu anweddolrwydd eto mewn giltiau a bondiau soffren.

4. Strategaeth Fenthyca

- 4.1 Mae lefel absoliwt cyfraddau benthyca, yn ogystal â'r berthynas rhwng cyfraddau llog tymor byr a hir, yn parhau i ddylanwadu ar reolaeth trysorlys, ac ar strategaethau benthyca yn benodol. Mae'r gwahaniaeth yn creu "cost cario" (cost of carry) ar gyfer unrhyw fenthyciad tymor hirach newydd, lle caiff yr enillion eu cadw dros dro fel buddsoddiadau, oherwydd y gwahaniaeth rhwng beth sy'n cael ei dalu ar y benthyciad, a beth sy'n cael ei ennill ar y buddsoddiad. Mae'r gost cario yn debygol o fod yn broblem hyd 2016 neu du hwnt i hynny. Gan fod benthyca'n digwydd am gyfnodau hirach yn aml (hyd at 50 mlynedd) mae angen ystyried y gost cario yn wyneb ansicrwydd a chyfyngiadau fforddiadwyedd yn sefyllfa ariannol ehangach y Cyngor.
- 4.2 Fel y dengys Tabl 1, mae gan y Cyngor ofyn benthyca gros o £48.34m yn 2013/14, ond mae ganddo falansau a chronfeydd wrth gefn digonol i osgoi gorfod benthyca'n allanol. Wrth fenthyg ei gronfeydd dros ben iddo'i hun, i bob pwrpas, gall y Cyngor isafu costau benthyca a lleihau risg drwy leihau lefel ei falansau buddsoddi allanol.

5. Ffynonellau Benthyca a Goblygiadau Portffolio

- 5.1 Yn unol â chynghor gan ei ymgynghorydd trysorlys, Arlingclose Ltd, bydd y Cyngor yn cadw golwg ar y ffynonellau benthyca a ganlyn:
- Mewnol
 - PWLB
 - Awdurdodau lleol
 - Lesu gan y Banc Buddsoddi Ewrop
 - Cyllid strwythuredig
 - Marchnadoedd cyfalaf (dyroddiadau stoc, biliau a phapur masnachol)
 - Banciau masnachol
- 5.2 Mae'r gost cario wedi arwain at ddibyniaeth uwch ar fenthyca mwy byrdymor, ac ar raddfa gyfnewidiol. Mae benthyca o'r math hwn yn rhoi ansefydlogrwydd i'r proffil dyled o ran risg cyfradd llog, ond mae fforddiadwyedd benthyca o'r fath yn gwneud i fyny am hyn, yn ogystal â'r enillion a geir o fuddsoddiadau yn erbyn costau benthyca. Cedwir golwg reolaidd ar faint o fenthyca mwy byrdymor, ar gyfradd gyfnewidiol, a wna'r Cyngor, drwy gyfeirio at y gwahaniaeth rhwng y gyfradd gyfnewidiol a chostau benthyca mwy hirdymor. Byddai lleihad yn y gwahaniaeth o 0.5% yn arwain at adolygiad ffurfiol ar unwaith o'r strategaeth fenthyca er mwyn pennu os dylid cadw'r defnydd o fenthyca mwy byrdymor, ar gyfradd gyfnewidiol, neu ei altro.

- 5.3 Mae'r Cyngor wedi benthycu £16.2m drwy fenthyciadau LOBO (Lender's Option Borrower's Option), a gall y rhain gael eu "galw'n" ôl yn ystod 2013/14. "Gelwir" LOBO pan fo'r sawl sy'n rhoi benthycu yr arian (Lender) yn defnyddio'i hawl i ddiwygio'r gyfradd llog ar y benthyciad. Ar y pwynt hwn, gall y Benthyciwr dderbyn y telerau diwygiedig, neu eu gwrthod a thalu'r benthyciad yn ôl. Mae benthyciadau LOBO yn cyflwyno risg ail gyllido posib i'r Cyngor, gan fod y penderfyniad i alw LOBO ar ddisgresiwn llwyr y sawl sy'n rhoi benthycu.

Bydd unrhyw LOBO a hawlir yn ôl yn cael ei drafod gyda'r ymgynghorwyr trysorlys cyn derbyn unrhyw delerau diwygiedig. Y sefyllfa arferol fyddai talu'r LOBO yn ôl heb gosb h.y. peidio â derbyn y telerau diwygiedig. Ar sail Crynodeb y Fantolen, yn Nhabl 1, byddai'n rhaid ariannu unrhyw ad-daliad gyda benthyciad newydd allanol.

6. Aildrefnu Dyledion

- 6.1 Gellir ailstrwythuro portffolio dyledion y Cyngor drwy dalu benthyciadau'n ôl yn gynnar, a'u hail gyllido ar delerau tebyg neu wahanol i gael lleihad mewn risg ac/neu arbedion mewn costau llog.
- 6.2 Mae cyfraddau llog is, a newidiadau yn y rheolau ynglŷn â thalu benthyciadau PWLB yn ôl yn gynnar, wedi cyfyngu'r sgôp i ailstrwythuro dyledion yn ystyrlon, er efallai bydd cyfleoedd yn codi o dro i dro. Byddai un neu fwy o'r amcanion isod yn reswm dros aildrefnu dyledion:
- Lleihau balansau buddsoddi a risg credyd drwy ad-dalu dyledion
 - Alinio rhagamcanion llif arian tymor hir a lefelau dyledion
 - Arbedion mewn costau llog wedi'u haddasu yn ôl risg (risk adjusted);
 - Ail-fantoli strwythur cyfradd llog y portffolio dyledion;
 - Newid proffil aeddfedwydd y portffolio dyledion.
- 6.3 Adroddir ar weithgarwch benthycu ac aildrefnu i'r Pwyllgor Archwilio yn yr Adroddiad Rheolaeth Trysorlys Blynnyddol, ac yn yr adroddiad rheolaeth trysorlys canol blwyddyn a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

7. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 7.1 Yn unol â'r Canllawiau Buddsoddi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac arfer gorau, prif amcan yr Awdurdod hwn o ran buddsoddi arian cyhoeddus yw diogelu cyfalaf. Mae hylifedd neu hygyrchedd buddsoddiadau'r Awdurdod yn eilaidd, ac mae'r enillion a geir o fuddsoddiadau yn ystyriaeth drydyddol.
- 7.2 Mae'r Awdurdod a'i ymgynghorwyr yn parhau i fod yn hynod wylidwrus am arwyddion o gredyd neu farchnad mewn cyfyngder a allai effeithio'n andwyol ar yr Awdurdod.
- 7.3 Mae buddsoddiadau wedi'u categorio fel rhai "Penodedig" ac "Amhenodedig" o fewn y Canllaw Buddsoddi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae buddsoddiadau penodedig yn fuddsoddiadau sterling gydag aeddfedwydd o flwyddyn ar y mwyaf. Maent hefyd yn cwrdd â'r "ansawdd credyd uchel" fel y'i pennwyd gan y Cyngor, ac ni ystyrir hwy fel buddsoddiadau gwariant cyfalaf mewn cyfraith statud. Buddsoddiadau amhenodedig, i bob pwrpas, yw popeth arall.

- 7.4 Mae'r mathau o fuddsoddiadau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio, a p'un a ydynt yn rhai penodedig neu amhenodedig, fel a ganlyn:

Tabl 2: Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig

Buddsoddiad	Penodedig	Amhenodedig
Cyfleuster Adneuon yr Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF)	✓	✗
Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA	✗	✓
Biliau Trysorlys	✓	✗
Biliau'r Awdurdod Lleol	✓	✗
Adneuon cyfnod penodol gydag awdurdodau lleol eraill y DU	✓	✓
Adneuon cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau	✓	✓
Tystysgrif adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu	✓	✓
Giltiau	✓	✓
Bondiau wedi eu dyroddi gan fanciau datblygu amlochrog	✓	✓
Bondiau Corfforaethol	✓	✓
Cynlluniau Marchnad Arian a Buddsoddi ar y Cyd eraill	✓	✓
Papur Masnachol	✓	✗
Buddsoddiadau gyda Darparwyr Cofrestredig	✓	✓
Buddsoddiadau gyda sefydliadau nad yw'n cwrdd â'r meini prawf buddsoddi penodedig (yn amodol ar asesiad credyd allanol)	✗	✓
Benthyciadau Busnes i Gwmnïau Lleol (fel y cytunwyd gan y cynllun Cronfa Benthyciadau Lleol)*	✗	✓

* Cymeradwyir y benthyciadau trwy broses amlinellir isod. Nid yw arfarniad o'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a ddarparir gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

- 7.5 Mae Darparwyr Cofrestredig wedi'u cynnwys mewn buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig ar gyfer 2013/14. Bydd buddsoddiadau gyda Darparwyr Cofrestredig yn cael eu dadansoddi ar sail unigol ac yn cael eu trafod gydag Arlingclose cyn buddsoddi.
- 7.6 Cynhwysir buddsoddiadau gyda sefydliadau eraill fel categori amhenodedig ar gyfer 2013/14. Byddai hyn yn cynnwys cyfleuon buddsoddi gyda mentrau bach a chanolig a busnesau eraill dros y DU. Oherwydd canfyddir risg credyd uwch gyda mentrau llai, mae buddsoddiadau o'r fath yn gallu darparu cyfradd o ddychweliadau sylweddol uwch. Ymgymerir ag asesiad credyd allanol a cheisio am gyngor gan ymgynghorwr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor (pan ar gael) cyn gwneud unrhyw benderfyniad buddsoddi.
- 7.7 Y statws credyd isafswm ar gyfer cyrff nad ydynt yn y DU yw AA+ (neu gyfwerth). Y statws isafswm tymor hir i wrthbartïon ar gyfer buddsoddiadau penodedig yw A- (neu gyfwerth). Fel nodwyd mewn buddsoddiadau amhenodedig yn Atodiad C, bydd gan y Pennaeth Cyllid ddisgresiwn i wneud buddsoddiadau gyda gwrthbartïon nad ydynt yn bodloni'r meini prawf penodedig ar gyngor Arlingclose.

Rhestrir y nodweddion credyd eraill, yn ychwanegol i'r statysau credyd, y mae'r Cyngor yn eu monitro yn y Dangosydd Darbodus ar Risg Credyd (DD 11, tudalen 16).

Gellir atal neu gael gwared ar unrhyw sefydliad sy'n peri pryder drwy unrhyw un o'r risgiau uchod. Mae statysau credyd yn cael eu monitro'n benodol gan y Cyngor o leiaf bob mis, er cyfathrebir unrhyw newidiadau i gyfraddiadau sefydliadau ar restr gwrthbartion y Cyngor gan yr Ymgynghorwyr Trysorlys fel maent yn digwydd. Pryd bydd y Cyngor yn derbyn arweiniad gan Arlingclose ar newidiadau mewn statysau a'r camau priodol i'w cymryd bydd hyn yn cael ei weithredu. Gweler rhestr o wrthbartion sydd yn cyrraedd y meini prawf ar hyn o bryd yn **Atodiad C**.

Ar gyfer buddsoddiadau penodedig, mae'n parhau'n bolisi gan y Cyngor i wneud eithriadau i bolisi gwrthbarti a ffurfiwyd o gwmpas statysau credyd, ond mae hyn yn destun amodau ac yn amodol ar gyfeiriad. Golygai hyn gall sefydliad sy'n cwrdd â'r meini prawf gael ei atal, ond ni fydd sefydliadau nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf yn cael eu hychwanegu.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnwys yn y Buddsoddiadau Amhenodedig yn y tabl uchod, a byddant am uchafswm o 10 mlynedd. Bydd cyfanswm y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o'r fath yn tua £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o'r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu drwy benodi ymgynghorwyr, a'r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyciadau yr arian.

- 7.8 **Bancwr y Cyngor** – Mae'r Cyngor yn bancio gyda Barclays Bank plc. Ar hyn o bryd, mae'n cwrdd â'r statws credyd isafswm o A- (neu gyfwerth) i'r tymor hir. Hyd yn oed os yw'r statws credyd yn disgyn islaw meini prawf isafswm y Cyngor, byddwn yn parhau i'w ddefnyddio i ddibenion hylifedd byrdymor (buddsoddiadau dros nos a phenwythnos) a threfniadau parhad busnes.

8. **Strategaeth Fuddsoddi**

- 8.1 Gyda chyfraddau llog tymor byr yn isel ers tro, bydd strategaeth fuddsoddi fel arfer yn arwain at ymestyn cyfnodau buddsoddi, os yw llif arian yn caniatáu, er mwyn cael cyfraddau uwch o enillion derbyniol ar ôl haddasu yn ôl risg (risk adjusted). Y broblem yn yr hinsawdd bresennol yw dod o hyd i wrthbarti i fuddsoddi lle ceir lefelau derbyniol o risg gwrthbarti.
- 8.2 Er mwyn amrywio portffolio buddsoddi sydd wedi'i fuddsoddi mewn arian yn bennaf, fe wneir y buddsoddiadau gydag ystod o wrthbartion buddsoddi cymeradwy dros ystod o gyfnodau aeddfedu. Gosodir lefelau uchaf o fuddsoddi gyda phob gwrthbarti, er mwyn sicrhau cael amrywiaeth darbodus.
- 8.3 Caiff cronfeydd marchnad arian (MMF) eu defnyddio hefyd, ond mae arfer dda wrth reoli'r trysorlys yn dod yn gyntaf, a thra bod MMF yn rhoi amrywiaeth dda, bydd y Cyngor hefyd yn ceisio defnyddio mwy nag un MMF. Bydd y Cyngor hefyd yn cyfyngu ar ei ddefnydd o MMF sy'n rheoli lefelau is o arian, ac ni fydd yn buddsoddi mwy na 0.5% o werth ased net yr MMF. Pan yn buddsoddi mewn MMF y Llywodraeth, bydd y Cyngor yn sicrhau na fydd y buddsoddiad ym mhob un Cronfa yn fwy na 2% o werth ased net y Gronfa.

9. Polisi ar Ddefnydd ar Ddeilliadau Ariannol

- 9.1 Mae'r Localism Act 2011 yn cynnwys cymhwyster hawl cyffredinol sydd yn diddymu'r sefyllfa gyfreithiol ansicr dros ddefnydd deilliadau ariannol arunig (h.y. rheiny sydd heb eu mewnosod mewn benthyciad neu fuddsoddiad) ar gyfer awdurdodau lleol Lloegr. Er nad yw'r newid hon yn berthnasol i Gymru, mae Cod diweddaraf CIPFA yn gofyn i awdurdodau datgan yn glir eu polisi ar ddefnydd o ddeilliadau yn y strategaeth flynyddol.
- 9.2 Yn absenoldeb unrhyw hawl cyfreithiol, polisi'r Cyngor yw peidio ymgymryd â thrafodaethau deilliadau ariannol arunig fel cyfnewidiadau, blaen gytundebau, blaen drafodion ariannol ac opsiynau. Nid yw'r polisi hon yn berthnasol i ddeilliadau wedi eu mewnosod mewn cytundebau eraill, er bydd y risgiau ynghlwm yn cael eu rheoli o fewn y strategaeth rheolaeth risgiau cyffredinol.

10. Datganiad MRP 2013/14

- 10.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg)(Cymru)(fel y'i diwygiwyd) 2008 [OS 2008/588 (W.59)] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

- 10.2 Dyma'r pedwar opsiwn MRP sydd ar gael:

- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull CFR
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

- 10.3 MRP yn 2013/14: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Non-HRA) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

- 10.4 Cyflwynir y Datganiad MRP i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2013/14. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Bydd y Cyngor yn defnyddio Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Bydd yr MRP yng nghyswllt lesau a chynlluniau PFI a brynwyd ar y Fantolen dan y Côt Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar yr IFRS yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

11. Monitro ac Adrodd ar Alldro'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus

- 11.1 Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar weithgarwch / perfformiad rheolaeth trysorlys a Dangosyddion Perfformiad bob chwe mis yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu adroddiad alldro ar ei weithgarwch trysorlys ddim hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Y Pwyllgor Archwilio fydd yn gyfrifol am graffu'r gweithgarwch a'r arferion rheoli trysorlys.

12. Eitemau Eraill

12.1 Hyfforddiant

Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA, bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau bod pob aelod sydd â chyfrifoldebau rheolaeth trysorlys, yn cynnwys craffu'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys, yn derbyn hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion, a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

12.2 Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn defnyddio Arlingclose fel Ymgynghorwyr ar gyfer y gwasanaethau canlynol:

- Cyngor credyd
- Cyngor buddsoddi
- Cyngor technegol
- Rhagolygon economaidd a chyfraddau llog.
- Gweithdai a digwyddiadau hyfforddiant.

Mae'r Awdurdod yn cynnal ansawdd y gwasanaeth gyda'i ymgynghorwyr drwy gynnal cyfarfodydd chwarterol a thendro o bryd i'w gilydd.

Dangosyddion Darbodus 2013/14 – 2015/16**1. Cefndir:**

Mae gofyn dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i awdurdodau lleol ystyried y ddogfen CIPFA's Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities ("Côd Darbodus CIPFA") wrth bennu eu Dangosyddion Darbodus ac wrth eu hadolygu.

2. Benthycia Net a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf:

Mae hyn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth. Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf yn unig y bydd y benthycia net dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r benthyciadau allanol net, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, a hefyd ar ben hynny yr amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Os oes gostyngiad yn unrhyw un o'r blynyddoedd hyn yn y gofyn cyllido cyfalaf, anwybyddir y gostyngiad hwn wrth amcangyfrifo'r cynnydd cronus yn y gofyn cyllido cyfalaf a ddefnyddir er cymhariaeth â'r ddyled **gros** allanol.

Mae'r Pennaeth Cyllid yn adrodd na chafodd y Cyngor unrhyw drafferth cwrdd â'r gofyn hwn yn 2011/12, ac na ragwelir unrhyw drafferthion ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon wedi cymryd i ystyriaeth ymrwymadau presennol, cynlluniau sy'n bodoli eisoes a'r cynigion yn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo.

Pan fo'r ddyled gros yn fwy na'r gofyn cyllido cyfalaf dylid nodi'r rhesymau am hyn yn glir yn y strategaeth rheoli trysorlys.

3. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf:

- 3.1 Gosodwyd y dangosydd hwn i sicrhau bod lefel y gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn benodol, i ystyried yr effaith ar y Dreth Gyngor.

Gwariant Cyfalaf	Wedi'i gymeradwyo 2012/13 £m	Wedi'i ddiwygio 2012/13 £m	Amcan 2013/14 £m	Amcan 2014/15 £m	Amcan 2015/16 £m
Cronfa Gyffredinol	61.44	40.88	50.70	31.27	20.35
Cyfrif Refeniw Tai (HRA)	0	0.06	0	0	0
Cyfanswm	61.44	40.94	50.70	31.27	20.35

- 3.2 Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido neu ei ariannu fel a ganlyn:

Cyllido Cyfalaf	Wedi'i gymeradwyo 2012/13 £m	Wedi'i ddiwygio 2012/13 £m	Amcan 2013/14 £m	Amcan 2014/15 £m	Amcan 2015/16 £m
Derbyniadau cyfalaf	1.89	2.28	1.07	2.10	0.68
Grantiau'r Llywodraeth	31.13	19.58	25.68	16.42	7.32
Cyfraniadau Refeniw	13.92	8.98	13.46	1.28	3.49
Cyfanswm Cyllido	46.94	30.84	40.21	19.80	11.49
Benthycia wedi'i gefnogi	4.89	4.86	4.17	4.17	4.17
Benthycia heb ei gefnogi	9.61	5.24	6.33	7.30	4.68
Cyfanswm Ariannu	14.50	10.10	10.49	11.47	8.85
Cyfanswm Cyllido ac Ariannu	61.44	40.94	50.70	31.27	20.34

Dengys Tabl 1 y na ellir ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn llwyr o ffynonellau ar wahân i fenthycha allanol.

4. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net:

- 4.1 Dangosydd yng nghyswllt fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlgu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido. Mae'r diffiniad o gostau cyllido i'w gael yn y Côd Darbodus.
- 4.2 Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar gostau net incwm o fuddsoddiadau.

Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net:	Wedi'i gymeradwyo 2012/13	Wedi'i ddiwygio 2012/13	Amcan 2013/14	Amcan 2014/15	Amcan 2015/16
	%	%	%	%	%
Cyfanswm	5.65	5.54	5.24	5.24	5.37

5. Gofyn Cyllido Cyfalaf:

- 5.1 Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthycha at ddibenion cyfalaf. Cyfrifir y CFR o'r symiau a ddelir ar y Mantolenni sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf, a'i gyllido.

Gofyn Cyllido Cyfalaf	Wedi'i gymeradwyo 2012/13	Wedi'i ddiwygio 2012/13	Amcan 2013/14	Amcan 2014/15	Amcan 2015/16
	£m	£m	£m	£m	£m
Cyfanswm CFR	162.03	156.14	160.39	165.46	167.74

6. Effaith Ychwanegol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddi Cyfalaf:

- 6.1 Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Cyfrifir yr effaith ychwanegol (incremental impact) drwy gymharu cyfanswm y gofyn cyllideb refeniw yn y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol, gyda chyfrifiad cyfwerth o'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

Effaith Ychwanegol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf:	Wedi'i gymeradwyo 2012/13	Amcan 2013/14	Amcan 2014/15	Amcan 2015/16
	£	£	£	£
Cynnydd yn Band D y Dreth Gyngor	0.0	0.0	0.0	0.0

- 6.2 Mae gan gynlluniau cyfalaf y Cyngor, fel y'u hamcangyfrifwyd yn y blynyddoedd ariannol i ddod, effaith niwtral ar dreth gyngor ac/neu renti tai. Adlewyrcha hyn y ffaith bod gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido'n bennaf gan adnoddau mewnol (grantiau, cyfraniadau, refeniw a derbyniadau cyfalaf) a chefnogir unrhyw gynnydd yn yr angen gwaelodol i fenthycha drwy'r system Grant Cynnal Refeniw.

7. Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol:

- 7.1 Mae gan y Cyngor strategaeth rheolaeth trysorlys integredig, ac mae'n rheoli ei sefyllfa trysorlys yn unol â'i strategaeth a'i ymarfer cymeradwy. Bydd benthycu ar y cyfan felly'n cynyddu o ganlyniad i holl drafodion cyllidol y Cyngor, ac nid yn unig y rheini sy'n deillio o wariant cyfalaf sydd wedi'i adlewyrchu yn y CFR.
- 7.2 Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn gosod y lefel uchaf posib o fenthycu allanol ar sail gros (h.y. dim net o fuddsoddiadau) ar gyfer y Cyngor. Caiff ei fesur yn ddyddiol yn erbyn yr holl eitemau benthycu allanol ar y Fantolen (h.y. benthycu tymor byr a hir, balansau banc sy'n ddyledus, ac ymrwymadau tymor hir. Mae'r Dangosydd Darbodus hwn yn adnabod benthycu o rwymedigaethau tymor hir eraill, megis lesau cyllid, ar wahân. Mae'n gyson ag ymrwymadau presennol y Cyngor, ei gynigion ar gyfer gwariant a chyllido cyfalaf, a'i ymarferion a datganiad polisi ar reolaeth trysorlys.
- 7.3 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn statudol a bennwyd dan Adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003 (cyfeirir ato yn y ddeddfwriaeth fel y Terfyn Fforddiadwy).
- 7.4 Mae'r Ffin Weithredol wedi'i osod yn ôl yr amcangyfrif o'r sefyllfa fwyaf tebygol a darbodus, ond nid y sefyllfa waethaf serch hyn, gyda digon o hyblygrwydd i ganiatáu symudiadau arian anarferol.
- 7.5 Mae'r Ffin Weithredol yn cysylltu'n uniongyrchol i amcangyfrifon y Cyngor o'r CFR, ac amcangyfrifon o ran gofynion llif arian eraill. Mae'r dangosydd hwn wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig sy'n adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf, a heb gynnwys yr hyblygrwydd sydd wedi'i gynnwys yn y Terfyn Awdurdodedig.
- 7.6 Mae gan y Pennaeth Cyllid awdurdod dirprwyedig, o fewn cyfanswm y terfyn am unrhyw flwyddyn unigol, i ganiatáu symudiad rhwng y terfynau ar gyfer benthycu a gytunwyd ar wahân, ynghyd â rhwymedigaethau tymor hir eraill. Bydd penderfyniadau'n seiliedig ar ddeilliant yr arfarniadau dewisiadau ariannol a'r ystyriaethau gwerth gorau. Adroddir am unrhyw symudiad rhwng y terfynau ar wahân hyn i gyfarfod nesaf y Cabinet.

	Wedi'i gymeradwyo 2012/13 £m	Wedi'i ddiwygio 2012/13 £m	Amcan 2013/14 £m	Amcan 2014/15 £m	Amcan 2015/16 £m
Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Benthycu	189.75	190.0	190.0	190.0	190.0
Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Ymrwymadau Tymor Hir Eraill	0.25	0.00	0.00	0.00	0.00
Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Benthycu Allanol	190.00	190.00	195.00	195.00	195.00
Ffin Weithredol ar gyfer Benthycu	169.75	170.00	170.00	170.00	170.00
Ffin Weithredol ar gyfer Ymrwymadau Tymor Hir Eraill	0.25	0.00	0.00	0.00	0.00
Ffin Weithredol ar gyfer Benthycu Allanol	170.00	170.00	175.00	175.00	175.00

8. Mabwysiadu Côt Rheolaeth Trysorlys CIPFA:

8.1 Mae'r dangosydd yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion arferion gorau.

Mabwysiadu Côt Ymarfer Rheolaeth Trysorlys CIPFA
Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fabwysiadu Côt Rheolaeth Trysorlys CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2011.

Mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r newidiadau i'r Côt Ymarfer CIPFA diwygiedig yn ei bolisiâu, ei weithdrefnau a'i arferion trysorlys.

9. Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol:

9.1 Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu i'r Cyngor reoli i ba raddau y caiff ei effeithio gan newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae'r Cyngor yn cyfrifo'r terfynau hyn ar y prif symiau net sydd heb eu clirio (h.y. dyledion cyfradd sefydlog net o fuddsoddiadau cyfraddau sefydlog / llog net a dalwyd).

9.2 Mae'r terfyn uchaf ar gyfer effaith cyfraddau llog cyfnewidiol wedi'i osod i sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i gynnydd mewn cyfraddau llog a allai gael effaith andwyol ar y gyllideb refeniw. Mae'r terfyn yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu effaith newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar fuddsoddiadau.

	Lefel gyfredol ar 31/03/12 %	Wedi'i gymeradwyo 2012/13 %	Wedi'i adolygu 2012/13 %	Amcan 2013/14 %	Amcan 2014/15 %	Amcan 2015/16 %
Terfyn Uchaf ar gyfer Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog	69.3	100	100	100	100	100
Terfyn Uchaf ar gyfer Effaith Cyfraddau Llog Cyfnewidiol	0	50	50	50	50	50

9.3 Mae'r terfynau uchod yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau i gymryd benthyciadau newydd ar sail cyfraddau llog sefydlog neu gyfnewidiol; yn y pen draw, gwneir y penderfyniadau yn seiliedig ar y symudiadau disgwylidig mewn cyfraddau llog, fel y nodir yn strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

10. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog:

- 10.1 Mae'r dangosydd hwn yn tynnu sylw at fodolaeth unrhyw grynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog, ac mae wedi'i ddylunio i ddiogelu yn erbyn effaith ormodol newidiadau i gyfraddau llog mewn unrhyw gyfnod, yn enwedig dros y deng mlynedd nesaf.
- 10.2 Cyfrifir hyn fel cyfanswm y benthyciadau cyfradd sefydlog a ragamcanir fydd yn aeddfedu ym mhob cyfnod, fel canran o gyfanswm y benthyciadau cyfradd sefydlog a ragamcanir. Pennir aeddfedrwydd benthyciadau drwy gyfeirio at y dyddiad cynharaf ble y gall y benthyciwr ofyn am daliad.
- 10.3 Mae LOBOs yn cael eu categoreiddio fel pe bai'n aeddfedu ar y dyddiad galw nesaf, h.y. y dyddiad cyntaf fod y benthyciwr yn gallu gofyn am ad-daliad.

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog	Cyfrannau cyfredol ar 31/03/12 %	Terfyn Isaf ar gyfer 2013/14 %	Terfyn Uchaf ar gyfer 2013/14 %
dan 12 mis	1.10	0	25
12 mis ac o fewn 24 mis	15.21	0	25
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	2.42	0	50
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	6.08	0	75
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	20.78	0	100
20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd	30.38	0	100
30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd	0	0	100
40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd	24.03	0	100
50 mlynedd a mwy	0	0	100

11. Risg Credyd:

- 11.1 Mae'r Cyngor yn ystyried diogelwch, hylifedd ac enillion, yn y drefn honno, wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.
- 11.2 Mae statws credyd (a ddarperir gan asiantaethau credyd-raddio) yn parhau'n elfen bwysig o asesu risg credyd, ond nid dyma'r unig nodwedd sydd wedi'i chynnwys yn asesiad y Cyngor o risg credyd gwrthbartion.
- 11.3 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn ystyried asesiadau amgen o gryfder credyd, a gwybodaeth am ddatblygiadau corfforaethol a theimlad y farchnad tuag at wrthbartion. Defnyddir y teclynnau allweddol canlynol er mwyn asesu risg credyd:
- Statws credyd cyhoeddedig y sefydliad ariannol (isafswm o A- neu gyfwerth), a'i sofrren (isafswm o AA+ neu gyfwerth ar gyfer sofrrenni o'r tu allan i'r DU);
 - Mekanweithiau i gefnogi'r sofrren;
 - "Credit default swaps" (ble bônt wedi'u nodi);
 - Prisiau cyfranddaliadau (ble bo hynny ar gael);
 - Elfennau sylfaenol Economaidd, megis dyledion net y wlad fel canran o'i GDP;
 - Datblygiadau corfforaethol, newyddion, erthyglau, teimladau a momentwm y farchnad;
 - Synnwyr cyffredin.

11.4 Statws credyd yw'r unig ddangosydd gyda gwerthoedd ragnodol. Mae dangosyddion eraill o deilyngdod credyd yn cael eu hystyried mewn telerau cymharol yn hytrach nac mewn telerau absoliwt.

12. Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir dros 364 diwrnod:

12.1 Pwrpas y terfyn hwn yw cyfyngu'r posibilrwydd o golled allai ddigwydd pe bai'r Cyngor yn gorfod gofyn am ad-daliad cynnar o'r symiau a fuddsoddwyd.

	Wedi'i gymeradwyo 2012/13 £m	Wedi'i adolygu 2012/13 £m	Amcan 2013/14 £m	Amcan 2014/15 £m	Amcan 2015/16 £m
Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir dros 364 diwrnod	40.0	35.0	35.0	35.0	35.0

RHESTR O WRTHBARTIÖN SYDD YN CWRDD A'R MEINI PRAWF AR HYN O BRYD

Gwlad	Gwrthbartïon	Terfyn uchaf y Buddsoddiad £m	Uchafswm cyfnod y Benthyciad
Y DU	DMADF, DMO	Dim terfyn	Dim terfyn
Y DU	Awdurdodau Lleol y DU	£30m (£30m)	2 flynedd
Y DU	Santander UK Plc (Banco Santander Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	Bank of Scotland (Lloyds Banking Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	Lloyds TSB (Lloyds Banking Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	Barclays Bank Plc	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	Clydesdale Bank (National Australia Bank Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	HSBC Bank Plc	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	Nationwide Building Society	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	NatWest (RBS Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	Royal Bank of Scotland (RBS Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Y DU	Standard Chartered Bank	£12m (£18m)	2 flynedd
Awstralia	Australia and NZ Banking Group	£12m (£18m)	2 flynedd
Awstralia	Commonwealth Bank of Australia	£12m (£18m)	2 flynedd
Awstralia	National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Awstralia	Westpac Banking Corp	£12m (£18m)	2 flynedd
Canada	Bank of Montreal	£12m (£18m)	2 flynedd
Canada	Bank of Nova Scotia	£12m (£18m)	2 flynedd
Canada	Canadian Imperial Bank of Commerce	£12m (£18m)	2 flynedd
Canada	Royal Bank of Canada	£12m (£18m)	2 flynedd
Canada	Toronto-Dominion Bank	£12m (£18m)	2 flynedd
Y Ffindir	Nordea Bank Finland	£12m (£18m)	2 flynedd
Y Ffindir	Pohjola	£12m (£18m)	2 flynedd
Ffrainc	BNP Paribas	£12m (£18m)	2 flynedd
Ffrainc	Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Ffrainc	Credit Agricole SA (Credit Agricole Group)	£12m (£18m)	2 flynedd
Ffrainc	Société Générale	£12m (£18m)	2 flynedd
Yr Almaen	Deutsche Bank AG	£12m (£18m)	2 flynedd
Yr Iseldiroedd	ING Bank NV	£12m (£18m)	2 flynedd
Yr Iseldiroedd	Rabobank	£12m (£18m)	2 flynedd
Yr Iseldiroedd	Bank Nederlandse Gemeenten	£12m (£18m)	2 flynedd
Singapore	DBS Bank Ltd	£12m (£18m)	2 flynedd
Singapore	Oversea-Chinese Banking Corporation (OCBC)	£12m (£18m)	2 flynedd
Singapore	United Overseas Bank (UOB)	£12m (£18m)	2 flynedd
Sweden	Svenska Handelsbanken	£12m (£18m)	2 flynedd
Y Swistir	Credit Suisse	£12m (£18m)	2 flynedd
UDA	JP Morgan	£12m (£18m)	2 flynedd

- Mae terfyn o £18m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.
- Mae'r cyfyngiadau amser yn y rhestr uchod yn perthyn i adneuo cyfnod penodol. Mae offerynnau cyfnewidiadwy / masnachiadwy fel CD's gyda therfyn o 5 mlynedd. Mae'r cyfyngiadau amser argymhellir yn gyfredol yn sylweddol is na hyn, ond mae'r cyfyngiadau amlinellir uchod yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i'r posibilrwydd o sefydlogiad neu welliant mewn amgylchiadau credyd ac economaidd yn 2013/14.
- Gallai'r rhestr hon newid, er enghraifft, os bydd gwrthbarti / gwlad yn cael eu huwchraddio, a'u bod yn bodloni ein teclynnau teilyngdod credyd. Yn yr un modd, os bydd gwrthbarti'n cael ei israddio, gellir cwtogi'r rhestr hon.

Buddsoddiadau Amhenodedig

Offeryn	Uchafswm Aeddfedrwydd	Uch £m o'r portffolio	Gwariant cyfalaf?	<i>Esiamplau</i>
Adneuron tymor penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, sydd yn cwrdd â'r meini prawf penodol	2 flynedd	£12m fesul gwrthbarti	Na	
Adneuron tymor gydag awdurdodau lleol	2 flynedd	£12m fesul gwrthbarti	Na	
CD's ac offerynnau cyfnewidiadwy gyda banciau, cymdeithasau adeiladu sydd yn cwrdd â'r meini prawf penodol*	5 mlynedd	£12m fesul gwrthbarti	Na	
Buddsoddiadau gyda banciau, cymdeithasau adeiladu a sefydliadau eraill sydd ddim yn cwrdd â'r meini prawf penodol* (yn amodol ar asesiad credyd allanol) (gydag awdurdod y swyddog a151)	3 mis	£5m fesul gwrthbarti	Na	<i>Banc yn disgyn o dan y meini prawf penodol e.e. Co-op</i> <i>Mentrau bach a chanolig (SME's)</i>
	1 flwyddyn	£1m fesul gwrthbarti	Na	
	5 mlynedd	£100k fesul gwrthbarti	Ie / Na	
		Yn amodol ar gyfanswm o £20m i gyd		
Adneuron gyda darparwyr cofrestredig	5 mlynedd	£5m	Na	<i>Housing Associations, Registered Social Landlords</i>
Giltiau	6 mlynedd	Dim cyfyngiad	Na	<i>DMO</i>
Bondiau a gyflwynir gan fanciau datblygu amlochrog	6 mlynedd	£12m	Na	<i>EIB Bonds, Council of Europe Bonds etc.</i>
Bondiau sy'n defnyddio Sterling gan lywodraethau sofran y tu allan i'r DU	6 mlynedd	£12m	Na	
Cronfeydd Arian Marchnad a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd	Hylifedd dyddiol	£8m fesul enw Cyfanswm o £37.5m	Ie	<i>Ignis Sterling Liquidity Fund, Federated Prime Rate Sterling Liquidity Fund, RBS Global Treasury Funds etc.</i> <i>Investec Target Return Fund; Elite Charteris Premium Income Fund; LAMIT; M&G Global Dividend Fund</i>
Offerynnau corfforaethol a dyled a gyflwynir gan gyrff corfforaethol a phrynwyd o 01/04/12 ymlaen.	2 flynedd	£5m	Na	
Cynlluniau Buddsoddi Cyfunol (cronfeydd wedi eu cronni) nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o gynlluniau buddsoddi cyfunol yn WSI 2004 No 1010 (W.107) neu WSI 2007 No 1051 (W.108)	Nad yw'r cronfeydd yma gyda dyddiad aeddfedrwydd	£5m	Ie / Na	<i>Way Charteris Gold Portfolio Fund; Lime Fund</i>
Adneuron gyda chyrrff eraill mewn perthynas i gynlluniau adnau morgeisi (gydag awdurdod y swyddog a151 mewn ymgynghoriad gyda'r ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor)	7 mlynedd	£1m	Na	<i>LAMS</i>
Benthyciadau busnes i gwmnïau lleol**	10 mlynedd	£3m	Ie / Na	

* Byddwn yn buddsoddi yn yr offerynnau hyn yn unol â chyngor ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

** Rhoddir cymeradwyaeth i'r benthyciadau hyn yn unol â'r broses y manylir arni ym mharagraff olaf rhan 7.7 o Atodiad A. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor nac o'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

Ceir uchafswm o 75% o bortffolio buddsoddi'r Cyngor mewn buddsoddiadau amhenodedig.

CYNGOR GWYNEDD

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD	14 CHWEFROR 2013
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13
AWDUR	DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2012/13.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

- 2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2012/13 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 1 Chwefror 2013 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	9
Crëwyd Papurau Gwaith	3
Gwaith Maes ar y gweill	18
Cwblhawyd Gwaith Maes	1
Disgwyl Adolygiad	2
Adroddiad Drafft	2
Adroddiad Terfynol	63
Wedi ei gau	1
Cyfanswm	<u>99</u>
Wedi ei ganslo	11

